# tafod elái

EBRILL 2024

Rhif 386

Pris £1


## Grogg Robin McBryde

Un o uchafbwyntiau'r mis diwethaf oedd dadorchuddio Grogg o Robin McBryde yn ei wisg orseddol:

Dyma'r ddolen i brynu un: World of Groggs. Mae 10% o'r holl werthiant yn cael ei gyfrannu i'r Gronfa Leol.




Mae Cronfa Leol yr Eisteddfod bellach wedi codi £162,000. Diolch yn fawr iawn i bawb ar draws yr ardal sy'n gweithio mor galed i godi arian – yn trefnu ac yn cefnogi digwyddiadau, yn gwerthu tocynnau raffl a nwyddau. Yr apêl yw'r un arferol - os gwyddoch am unrhyw fusnesau a hoffai gefnogi'r Eisteddfod, rhowch wybod.

Newyddion gwych oedd clywed bod Llywodraeth Cymru am gyfrannu £385,000 i dargedu teuluoedd difreintiedig i allu dod i'r Maes am ddim. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda staff yr Eisteddfod i weithredu'r cynllun.

Erbyn hyn, rydyn ni'n gwybod ble bydd Maes B a'r Maes Carafanu ac yn gwybod y bydd y Llyfrgell, Y Miwni ac YMA'n cael eu defnyddio fel rhan o'r Maes. Mae'r stondinau i gyd wedi mynd a'r rhaglen artistig yn argoeli'n gyffrous iawn.

Helen Prosser (Cadeirydd Eisteddfod Genedlaethol 2024)




## SineYMa - Sinema newydd Pontypridd.

Lansiwyd sinema newydd sbon ym Mhontypridd ar Fawrth y cyntaf 2024. I ddathlu'r achlysur, dangoswyd y ffilm Pride (2014) sydd wedi ei leoli yn rhannol yng Nghymru.

Yn dilyn llwyddiant y noson, mi fyddwn ni yn dangos ffilm yn fisol, gydag amrywiaeth o 'genre' a chyfnodau hanes gwahanol. O 'blockbusters' i ffilmiau Indi, o 'chickflicks' i ffilmiau arswyd, mi fydd rhywbeth i bawb yn SineYMa.

Wrth i SineYMa ddatblygu mi fyddwn yn dangos nifer o ffilmiau Cymreig a a Chymraeg. Byddwn hefyd yn trefnu cyfres o grwpiau sinema yn ystod y dydd megis sesiynau Mam a Babi, sesiynau i'r henoed a chyfleoedd i ffilmiau Indi fod ar y sgrin fawr.

Mae agoriad sinema newydd ym Mhontypridd yn gyfle i ddathlu creadigrwydd y dre a'u thrigolion, ag edrychwn ymlaen at fod yn gartref i'r creadigrwydd yna!

Os hoffech mwy o wybodaeth am y ffilmiau sy'n sgrinio, neu hoffech trafod y posibilrwydd o logi'r sinema, cysylltwch a ni fan hyn: enquiries@artiscommunity.org.uk

## Clwb y Bont

I'r sawl sy'n cofio dyddiau cyffrous sefydlu Clwb y Bont yn 1983, mi fyddech chi'n siŵr o gofio hefyd taw Dafydd Iwan oedd yr artist gwadd cyntaf i agor y Clwb yn swyddogol. Pris tocyn ar y pryd oedd £1.




Braf felly oedd cael croesawu Dafydd yn ôl ym mis Mawrth, a'r gynulleidfa yn mwynhau cyd-ganu a morio rhai o'i glasuron gan gynnwys Yma o Hyd wrth gwrs. Anodd credu hefyd taw dim ond dwywaith y bu yma'n perfformio yma dros y degawdau, felly rydym yn falch iawn i gyhoeddi y bydd yn dychwelyd ar Nos Wener 27ain o Fedi gyda Luice Chivers hefyd yn rhannu'r llwyfan. Noson berffaith i lansio tymor newydd o ddigwyddiadau ôl -eisteddfod. Tocynnau ar werth ar ôl y Pasg.

O dipyn i beth fe welwch ein bod yn dechrau cyflwyno cynllun cyffrous sy'n ymestyn ein hapêl drwy gynnig mwy o amrywiaeth o ddigwyddiadau yng Nghlwb y Bont. Dros wyliau'r Pasg mi fydd Cwmni Theatr Mewn Cymeriad yn cynnig cyfres o sioeau theatrig llawn hwyl yn y Gymraeg a Saesneg. Y gobaith wrth geisio denu plant oed cynradd i fwynhau "Buddug - Brenhines y Celtiaid", yw cynnig cyfle hefyd i rieni wylio ac ymuno yn yr hwyl.

Wrth gwrs mae'n ddrama o hyd yng Nghlwb y Bont! Ar Fai'r 23ain mi fydd Theatr Bara Caws yn ymweld â ni fel rhan o'u taith "Ffenast Siop" gan Iola Ynyr a Carys Gwilym. Sioe un ddynes am Delyth, yn ffeindio ei ffordd mewn bywyd yn sgîl y menopôs. Chwerthin, harthio, edliw a cholli deigryn - mi gewch chi'r cyfan.

Mae holl fanylion tocynnau ein digwyddiadau ar gael o safle Ticketsource - www.ticketsource.co.uk/clwb-y-bont sy'n cynnwys gigs Pwdin Reis a'r Gerddorfa Ukulele ym mis Mai a Lowri Evans a Lucy Jenkins ym Mehefin; heb anghofio'r gig 14+ nesa ar Ebrill 26 gyda Wigwam, Anhunedd ac Echdoriad.

Gobeithiwn eich gweld yma cyn bo hir.

Aled Wyn Phillips

# tafod elái


***GOLYGYDD***
***Penri Williams***
***029 20890040***

***CYHOEDDUSRWYDD***
***Colin Williams***
***029 20890979***

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mai
i gyrraedd erbyn
26 Ebrill 2024

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
**e-bost**
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafodelai.cymru**

***Argraffwyr:***
EVANPRINT
***www.evanprint.co.uk***



CYMRAEG

***Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

## Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**


## Talwrn y Beirdd

Nos Fawrth, Mawrth 5ed, fe fu BBC Radio Cymru yn recordio'r Talwrn yn Yr Hen Lyfrgell, Y Porth, yn y Rhondda.

Recordiwyd dwy raglen - un rhwng timau Y Diwc ac Aberhafren (ar y radio 10.3.24), ac yna Caerelli a Tir Iarll (ar y radio 17.3.24) a Ceri Wyn Jones oedd y Meuryn.

Bydd modd gwrando ar y rhaglenni drwy BBC Sounds.

Roedd 'na gynulleidfa dda wedi dod draw i fwynhau'r ddwy ornest, ac fe gafwyd noson hwyliog iawn. Diolch i bawb am gefnogi'r noson.

Diolch yn arbennig i Teleri a Glyn Jones am drefnu'r cyfan mor hwylus, ac am y croeso yn Yr Hen Lyfrgell.



Y Diwc



Caerffili



Tir Iarll




Aberhafren


## CLWB Y DWRLYN

## "Fy Nhrysor i"

8yh Nos Iau
18 Ebrill 2024

Clwb Rygbi Pentyrch

*Manylion pellach:*
clwbydwrlyn@pentyrch.cymru



## CYLCH CADWGAN

**Sgwrs gan Roy Noble**

Dydd Gwener,
19 Ebrill 2024,
**3 o'r gloch y pnawn**
yn y Ganolfan,
Tabernacl, Efailisaf
£5 wrth y drws
Elw tuag at Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf
*Trefnir gan*
*Gymdeithas Gymraeg Llantrisant*




# Ar drywydd llên yn Rhondda Cynon Taf - 5

Braf a diddorol oedd cael dwy neges e-bost yn ddiweddar yn ymateb i'r golofn. Daeth un gan Ifan Roberts, Pentyrch, gydag erthygl a fu ganddo yn *Tafod Elái* am 'Ceiriog a Meisgyn Manor'; codwyd y plasty hwn gan Alaw Goch, neu Dafydd Williams, tad y Barnwr Gwilym Williams y mae cofgolofn iddo o flaen y llysoedd barn ym Mharc Cathays, Caerdydd. Roedd Alaw Goch wedi gwneud arian mawr drwy suddo pyllau glo. Ar ei ôl ef yr enwyd Trealaw, ac yno yr oedd Kitchener Davies, y buom yn sôn amdano y tro diwethaf, yn byw.

Daeth e-bost hefyd gan Rowland Wynne, yn sôn am ei atgofion am Myfyr Hefin, y brawd hŷn a gyhoeddodd waith y llenor Ben Bowen ar ôl iddo farw. Gobeithio y cewch ddarllen atgofion Rowland maes o law.

**Cylch Cadwgan**

Rhyfyg, mewn gwirionedd, yw ceisio sôn am y cylch hwn o lenorion a fu'n byw yn y Rhondda yn ystod yr ugeinfed ganrif mewn un erthygl fer, na hyd yn oed ddwy! Byddent yn cwrdd ar aelwyd J. Gwyn Griffiths a'i wraig Kate Bosse-Griffiths yn y Pentre. Ac yn eu plith roedd rhai o lenorion Cymraeg pwysicaf y ganrif honno, gan gynnwys Rhydwen Williams, Pennar Davies a Gareth Alban Davies. Yn ôl y *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens, 'Arbenigrwydd y grŵp oedd eu bod yn trafod datblygiadau cyfoes yn llenyddiaeth Ewrop gan ddadlau o blaid rhyddhau llenyddiaeth Gymraeg o'r hyn a ystyrient yn hualau Piwritaniaeth'. Cyhoeddwyd cyfrol o'u barddoniaeth, *Cerddi Cadwgan* yn 1953.

**Rhydwen Williams**

Cyhoeddwyd gweithiau nodedig gan aelodau unigol o'r grŵp hefyd, ac efallai y cawn gyfeirio at rai o'r rhain y tro nesaf. Ond rwyf am aros am ychydig y tro yma gydag un aelod o'r grŵp, Rhydwen Williams, gan mai ef, o bosib, a ysgrifennodd y gweithiau mwyaf hygyrch, a hefyd am fy mod yn digwydd ei led-adnabod pan oeddwn yn ifanc! Yn ddeunaw oed, yn y 1930au, roedd fy mam wedi gadael dyffryn Ceiriog a mynd i hyfforddi fel nyrs yng Nghaer; anfonodd fy nain 'lythyr aelodaeth' fy mam i gapel y Bedyddwyr yng Nghaer, ac yno, yng nghapel Penri, Caer, cafodd groeso cynnes ar aelwyd Rhydwen, ei fam a'i dad, ei frawd a'i ddwy chwaer. Parhaodd y cyfeillgarwch a phan oeddwn i yn ferch ysgol, a Rhydwen erbyn hynny yn gweithio i deledu Granada ym Manceinion, byddai'n galw o dro i dro yn ein cartref yn Llangefni. Un tro, rwy'n cofio iddo ddod â'r tenor enwog, David Lloyd efo fo! Rwy'n cofio hefyd iddo berswadio fy nhad i fynd ar ei raglen deledu, 'Dewch i Mewn' i sôn am ei brofiadau'n dysgu'r Gymraeg.

Roedd Rhydwen wedi ei eni a'i fagu yn y Rhondda, a bu gorfod symud oddi yno yn bymtheg oed gyda'r teulu i Gaer yn brofiad anodd iddo. Ond oni bai am y profiad dirdynnol hwnnw, tybed a fyddem wedi cael rhai o'r perlau llenyddol a gyfansoddodd? Mae ei drioleg, *Cwm Hiraeth* sy'n cynnwys y tair nofel, *Y Briodas, Y Siôl Wen* a *Dyddiau Dyn* yn rhoi darlun inni nid yn unig o hanes ei deulu ei hun dros dair cenhedlaeth, ond hefyd yn croniclo'r newid cymdeithasol pwerus a fu yn y cwm dros ganrif y diwydiannu a'r dirwasgiad a ddilynodd. Maent hefyd yn croniclo'r newidiadau ieithyddol – teuluoedd yn cyrraedd o'r Gogledd a'r Gorllewin, yn arddel eu tafodieithoedd eu hunain, bwrlwm Cymreictod a diwylliant yn nyddiau anterth y capeli Anghydffurfiol, ac yna'r dirywiad anorfod.

Daeth Rhydwen yn ôl i Gwm Rhondda yn weinidog ifanc i Ynys-hir, a dod bryd hynny o dan ddylanwad Kitchener Davies a Chylch Cadwgan. Roedd eisoes yn genedlaetholwr, ond cadarnhawyd ei ddaliadau dan ddylanwad y Cylch, a dyfnhaodd ei awydd i lenydda. Enillodd Goron Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar yn 1945 am ei bryddest, 'Yr Arloeswr'. Ond mae'n bosibl mai'r bryddest a enillodd iddo ei ail Goron genedlaethol, 'Ffynhonnau', yn Abertawe ym 1964 yw ei gerdd fwyaf adnabyddus. Cwm Rhondda oedd ei hysbrydoliaeth, y cwm yn nyddiau ei ieuenctid, a'r gorfoledd o weld ysgolion Cymraeg yn dechrau cael eu sefydlu yno erbyn y 1960au. Yn 1973, tra'r oeddwn i'n athrawes Gymraeg ifanc yn Ysgol Ddwyochrog Tonyrefail, cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhontypridd (ar Barc Ynysangharad). Y darn gosod ar gyfer y Parti Cyd-adrodd i ddisgyblion ail-iaith blynyddoedd 4, 5 a 6 (10, 11 a dosbarth 6 erbyn hyn) oedd detholiad o 'Ffynhonnau', a daeth parti o Donyrefail i'r llwyfan. Prin roeddwn i wedi gorfod eu dysgu – roedd y geiriau'n golygu cymaint i'r merched ifanc hyn ac roedd yr angerdd yn eu dweud yn cyffwrdd â'r galon. Rwy'n dal i'w clywed:




Cyfrol *Bro a Bywyd, Rhydwen Williams*,
gol. Emyr Edwards

> Fedrwch chi weld yn awr lle y bu'r
> pwll a'r lamprwm a'r seidin,
> A'r gweddïau a'r emynau a'r
> cableddau a'r rhegfeydd yn y ffas ...
>
> Fedrwch chi weld yn awr y ffynnon
> sasparila ar gownter Giovanni,
> A'r *Das Kapital* yn destun awr ginio
> a'r Cwrdd Gweddi am saith ...
>
> Yma, mae'r glomen wyllt a'r ffesant
> yn gwneud eu nythod unwaith eto ...
>
> Gwrandewch.
> Mae gorfoledd dyfroedd yn fy
> nghlustiau heno,
> Yr Ynys-wen, Ynysfeio, yr Ynys-hir.
> Yr holl ffordd i Eglwys-ilan.
> A'r ffynnon wylaidd ar Ben Rhys,
> Mor hardd â gem ar dwyfron,
> Yn dal i foli Mair.
> Mae'r ffynhonnau'n fyw!

Erbyn cyfansoddi'r llinellau hyn, roedd Ysgol Gymraeg Ynys-wen, Treorci wedi ei hagor, ac mae'r bryddest yn gyflwynedig i blant yr ysgol honno.

Efallai y cawn sôn ychydig am rai eraill o lenorion Cylch Cadwgan y tro nesaf. *Glenys M Roberts*


## Hybu'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf

7.30pm, nos Wener,12 Ebrill
Yn Hen Ysgoldy'r Eglwys, Radur

Bydd Cyril Jones yn holi
Rhuanedd Richards
(Cyfarwyddwr BBC Cymru)
a Cennard Davies, brodor o Dreorci,
bu'n Bennaeth Adran Ieithoedd
Prifysgol Morgannwg.

**Cost y tocyn: £10**
**Ar gael gan Allan Cook -**
**cookatradyr222@gmail.com**

**Tuag at Eisteddfod Genedlaethol 2024**

# PONTYPRIDD

Gohebydd y mis: Menna Lewis

**Dathliadau**
Llongyfarchiadau i Meilyr Geraint Rees a Hannah Ruth Kunert ( yn wreiddiol o Beckenham Llundain) ar eu priodas Dydd Sadwrn, Mawrth yr 2il yng nghapel Coedpenmaen a'r dathliadau yn Pencoed House. Byddan nhw'n ymgartrefu yn Trallwn Pontypridd. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch chi.




Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion fu wrthi'n cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd. Pob hwyl i bawb ym Meifod a diolch i'r holl athrawon a hyfforddwyr sydd wedi bod wrthi ers misoedd.

Llongyfarchiadau hefyd i Jayne Rees Graigwen ar dderbyn clod am gyfrannu gwaed dros hanner cant o weithiau. Derbyniodd dystysgrif mewn noson i ddathlu'r gamp. Da iawn yn wir.

**Pwyllgor Apêl Pontypridd a'r cylch**
Wel, all neb gwyno nad oes dim byd mlaen!

Nos Wener, yr 8 fed o Fawrth,cafwyd noson a hanner yng Nghlwb Rygbi Cilfynydd yng nghwmni Robin McBryde ac Eleri Sion. Sgwrs ddifyr a diddan a



chyfle i ddadorchuddio y Grogg newydd o 'Geidwad y Cledd'. Llongyfarchiadau i Dilys ar ennill un o'r Groggs! Diolch anferthol i bawb drefnodd ac a gyfrannodd mor hael i'r noson. Cymaint yw'r galw am y Grogg, mae rhestr aros!

Ar y gweill,bydd Noson Gyri a chwis yn y Cinnamon Tree ar Ebrill yr 17 eg.

**Taith Gerdded Treftadaeth Menywod Cymru**
Diolch i'r Archif Menywod Cymru a Menter Rhondda Cynon Taf am drefnu taith gerdded o amgylch tref Pontypridd gan ddilyn hanes nifer o fenywod dylanwadol o'r dref. Diolch yn arbennig i Dr Elin Jones a Dr Christine Chapman am arwain y daith. Gellir lawrlwytho'r llyfryn sydd yn cydfynd â'r daith o wefan y mudiad.

**Merched y Wawr.**
I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, cafwyd noson o swpera yn Nhŷ Bwyta Casa Bianca ym Mhontypridd. Bwyd blasus a chwmni da. Os nad ydych chi wedi bod yno eto, mae'n werth mynd.

Mis nesaf, Ebrill yr 11eg, byddwn nôl yng Nghlwb y Bont yn crefftio.

Ac ym mis Mai, bydd cyfle i fentro ar rywbeth newydd.

MENTER MAI. Rhowch gynnig ar her newydd a chodi arian i'r Eisteddfod yr un pryd. Ee. Cerdded cynifer o gamau bob dydd, nofio dŵr oer, coginio rhywbeth arbennig, creu bynting lliwgar, canu ar Pen y fan, gwirfoddoli…. Ewch amdani! Mwya gwahanol y syniad, gorau i gyd. Digon o amser i grafu pen a meddwl am syniad gwreiddiol.

**Clwb Darllen** – Byddwn yn cyfarfod ym mis Mai yn y Llyfrgell newydd, dydd Mercher yr 11 eg am 10.30. Croeso i aelodau hen a newydd.

**Byntin Coch, Gwyn a Gwyrdd**- Mae criw ohonom o'r ardal ( y rhan fwyaf yn aelodau o MYW!) wrthi'n gwau byntin neu faneri bach ar gyfer harddu'r dre erbyn yr Eisteddfod. Os oes awr fach sbar gyda chi, ewch ati i wau. Mae patrwm hawdd ar y we neu gofynnwch am fwy o wybodaeth.

**Bingo'r Beirdd -** Nos Wener yr 22 ain o Fawrth yng Nghlwb y bont. Cewch yr hanes tro nesaf.

**Clwb y Bont**
Cwis misol - 25 ain o Ebrill
Elin Fflur - 19 eg o Ebrill

**Band yn y stand**
Daeth cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r steddfod yn y digwyddiad yn y parc a chodwyd dros £550 drwy weini te a choffi yng nghanolfan Calon Taf. Diolch i bawb fu wrthi drwy'r dydd yn trefnu ac yn gweini.

**Noson Dafydd Iwan**
Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni Dafydd Iwan a Chatrin Herbert yn y clwb gyda'r gynulleidfa yn ymuno i ganu'r clasuron. Os na lwyddoch chi gael tocyn y tro hwn, yn ffodus bydd Dafydd Iwan nôl unwaith eto ym mis Medi. Llwyddwyd i godi £144 yn y raffl a £150 yn yr ocsiwn gwerthu copi llawysgrifen o Yma o hyd.

**Stondin yn y farchnad**
Fore Sadwrn, daeth criw bach i gynnal stondin yn y farchnad yn Stryd y Felin, i werthu nwyddau'r Eisteddfod ac i godi ymwybyddiaeth bobol leol am y digwyddiad. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn.

**Ras hwyl Gŵyl Ddewi**
Ar ddiwrnod glawiog diflas, daeth cannoedd o ddisgyblion o'r ysgolion cynradd lleol i Barc Ynys Angharad, i gynnal ras hwyl ac i godi arian i'r Eisteddfod. Trueni am y tywydd. Byddai fflipers wedi helpu! Ond cafwyd digon o hwyl a chodwyd miloedd o bunnoedd at yr apêl. Unwaith eto, diolch o galon i bawb fu wrthi'n trefnu, yn stiwardio ac annog yn y glaw.

Byddai cynnal ras debyg yn flynyddol yn syniad gwych i'r dyfodol.

**Siaradwyr newydd**
Ac os nad ydych chi wedi blino erbyn hyn, beth am ddod fore Iau, i'r Amgueddfa am 10.30, i gwrdd â Siaradwyr Newydd yr ardal. Maent mor frwdfrydig dros yr iaith a phopeth Cymreig. Digon i godi eich calon. Rhowch wybod os gallwch fod yn rhan o'r tîm.

Gohebydd mis Mai yw Dave a Margaret Francis



# O DAN YR WYNEB

## Martin Huws sy'n holi Robat Gruffudd, sefydlydd *Lol* a Gwasg Y Lolfa, am ei nofel ddiweddara, *Gobaith Mawr y Ganrif.*

**Beth yw eich gwaith?**
Trio'n galed i ymddeol.

**Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?**
Dim byd llenyddol ar y funud.

**O ble rydych chi'n dod?**
Yr Ucheldiroedd, Abertawe.

**Ble rydych chi'n byw?**
Talybont, Ceredigion.



**Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?**
Mwynheais fy addysg gynradd yn fawr iawn, sef fy mhum mlynedd yn Ysgol Gymraeg Lôn Las yn Nwyrain Abertawe. Nid mor baradwysaidd oedd fy saith mlynedd yn crwydro coridorau Bishop Gore Grammar School for Boys rhwng gwersi Groeg a Lladin.

**Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?**
Fy rhieni, yn sicr. Roedd yn gartref bywiog a diwylliedig ac roedd fy mam, Kate Bosse Griffiths, Almaenes Iddewig a ffodd rhag Hitler, ei hun yn nofelydd a sgrifennwr storïau byrion.

**Pa lyfrau ydych chi wedi eu hysgrifennu o'r blaen?**
Pedair nofel arall (dwy wedi ennill Gwobr Goffa Daniel Owen); *Lolian* (dyddiadur hanner canrif), ac *A Gymri di Gymru* (cyfrol o gerddi).

**O ble daeth y syniad cyn sgrifennu'r gyfrol? Faint o her oedd ei sgrifennu hi?**
Basen i'n hoffi gallu rhoi ateb llai ymhonnus ond fe ges i'r syniad tra'n pori mewn llyfr gan Todorov, yr athronydd Bwlgaraidd. Roedd yn trafod sut mae un genhedlaeth yn gallu byw'n gysurus ar gefn llafur ac aberth cenhedlaeth arall, a meddyliais, tybed ydi hyn yn wir am Gymru?

Mae 'na swyddi breision yng Nghaerdydd (yn y Sianel a'r Senedd a sefydliadau eraill) a ddaeth i fod dim ond achos ymdrechion ymgyrchwyr iaith. Mae'r syniad yma'n rhedeg fel llinyn cudd y tu ôl i blot *Gobaith Mawr y Ganrif*, a'r her oedd cadw'r nofel yn ysgafn a hwyliog er gwaetha hyn.

**Beth sy bwysicach, cymeriad neu blot?**
Yn ddelfrydol, dylai'r ddwy elfen ufuddhau i'r 'pwynt' mae'r awdur yn trio'i wneud. Ond haws dweud na gwneud.

**Beth sy'n gwneud stori dda?**
Anodd ateb mewn nifer fach o eiriau. Dylai fod yn gredadwy, mae'n debyg. Y gamp yn y nofel arbennig yma oedd trio cyfuno stori gyffrous gydag elfennau dychanol. Rhaid i'r darllenydd farnu ydw i wedi llwyddo.


**Oes gennych chi rwtîn sgrifennu?**
Na, ond rwy'n gosod larwm yr iPhone ar dri-chwarter awr ar y tro er mwyn cadw fy nhrwyn i lawr ar y gwaith – gyda phaned hir a diog iawn wedyn.

**Beth yw eich barn am stad y nofel yng Nghymru?**
Mae'n syndod o iach. Fel cyhoeddwyr ry'n ni'n falch iawn o weld y llif o nofelau newydd, ffres sy'n dod trwy'r wasg gan awduron ifanc, disglair. Mae hyn yn galonogol o safbwynt yr iaith hefyd er bod 'na broblemau yn y fasnach lyfrau ei hun ar y funud, diolch i'r Blaid Lafur.

**Pwy yw eich hoff awdur? Pam?**
Gwell i fi beidio ag enwi awdur Cymraeg! Milan Kundera, felly, sacsoffonydd o Prâg a ffodd rhag y Rwsiaid i Baris ac oedd yn llwyr gasáu'r Comiwnyddion. Rwy wrth fy modd â'i holl lyfrau. Mae 'na rywbeth deniadol iawn am y ffordd mae e'n cyfuno'r gwleidyddol a'r personol, yr athronyddol a'r erotig. Buodd e farw y llynedd.

**Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i awdur newydd?**
Dal ati a phaid â digalonni! Neidia'n ôl mewn i'r dŵr! A gan i fi sôn am Kundera, dylai ddarllen *Celfyddyd y Nofel* i'w helpu i gadw i fynd. Mae'n egluro pam fod ffurf y nofel yn un i'w thrysori yn nhermau Ewropeaidd.

**Beth oedd y cyngor gorau gawsoch chi?**
Alla i ddim meddwl am un cyngor penodol rwy wedi'i ddilyn, ond bues i'n drwm dan ddylanwad Yr Athro Leopold Kohr, y meddyliwr Awstriaidd oedd yn gyfrifol am ddatblygu'r syniad mai'r bach sy'n brydferth. Cethon ni'r fraint o gyhoeddi rhai o'i lyfrau. Ei gyngor ef oedd: peidiwch â cheisio cael gwared â'ch pechodau, dim ond eu cadw nhw'n fach.




**Pam nad o's digon o ddychan yng Nghymru?**
Falle mai rhan o'r broblem yw diffyg safbwynt gwleidyddol. Rhaid cael hynny i gynhyrchu dychan gwirioneddol ddeifiol (fel e.e. y comedïwr Stewart Lee).

**Beth sy' ar y gweill?**
Cyfnod hir o beidio â sgwennu. Mae sgrifennu nofelau'n lladdfa. Cawn weld beth ddaw.



**Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd**
Profais i e bythefnos yn ôl, yn gynnar nos Sul yn y Brasserie uwchben y traeth ym Mae Langland, Abertawe: pryd o bysgod a llysiau a gwin coch i gyfeiliant canwr swing a Thriawd Jazz Dave Cottle.

**Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?**
Cerdded rownd y bloc, nofio, gwylio ffilmiau o'r Almaen ac yfed Guinness gyda Meibion y Machlud.

**Dolen Gwales:** **https://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781800994485&tsid=3**

*Gobaith Mawr y Ganrif*, Y Lolfa, £9.99

# GILFACH GOCH

*Gohebydd Lleol:*
*Dawn Walters*

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau i Mackenzie McCann - Pencampwr Paffio Cymru pwysau 67kg.



Mae Codi Purnell yn aelod o dîm datblygu dan 18 rygbi Cymru fu'n fuddugol o 29-22 pwynt yn erbyn Yr Alban.



Llongyfarchiadau i Verity ac Esmay Walters - pencampwyr Cwpan Y Byd Dawns Ffurfiad gyda timau "Beyonce" a "Six". Bu'r ddwy hefyd yn is bencampwyr gyda timau "Flashdance" a "Fame"



Tîm Beyonce



Tîm Six

# Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

**Beirdd yn ymweld**
Daeth dau o feirdd enwocaf Cymru i weithio gyda'n disgyblion yn ddiweddar. Daeth Elinor Wyn Reynolds i gydweithio gyda Blwyddyn 6 wrth i ni baratoi ar gyfer dyfodiad yr Eisteddfod. Ar yr un diwrnod, daeth y bardd Aneirnin Karadog i weithio gyda Dosbarth Bendigeidfran a Branwen wrth iddynt odli a chyflythrennu. Sesiynau gwych!

**Ras Hwyl**
Cawsom ddiwrnod hyfryd yn codi arian i'r Eisteddfod Genedlaethol tra'n cadw'n heini yn ein Ras Hwyl. Daeth pob ysgol o'r clwstwr ynghyd ym Mharc Ynysangharad i redeg neu gerdded milltir. Diolch i holl deuluoedd yr ysgol am gefnogi'r digwyddiad trwy noddi'r plant.

**Her presenoldeb**
Ar ddiwrnod olaf tymor y gwanwyn fe gynhaliwyd raffl i ddathlu presenoldeb ar y diwrnod hwn. Mwynheuodd y plant ddewis gwobrau amrywiol.





Tîm Fame

**Cyngor Cymuned**
Diolch i'r Cyngor Cymuned am ariannu gweithdy'r Pasg yng nghapel Moreia dan arweiniad y Parchedig Rachel Wheeler a Dawn Walters. Fe ddaeth disgyblion blynyddoedd 1-5 o Ysgol Hendreforgan i glywed stori'r Pasg ac wrth gwrs i gael wy siocled.



**Casglu wyau Pasg i'r Banc Bwyd**
Trefnodd Senedd yr ysgol bod wyau Pasg yn cael eu casglu i Fanc Bwyd Pontypridd. Diolch i bawb am fod mor hael.

**Cracio'r Pasg**
Diolch i Eglwys Temple Baptist am y croeso cynnes pan fynychodd Dosbarth Blodeuwedd y gweithdy Cracio'r Pasg i ddysgu mwy am stori'r Pasg.

**Adeiladu Pontydd**
Daeth cwmni Griffiths, Siemens a Trafnidiaeth Cymru fel rhan o raglen Pont i Ysgolion i adeiladu pontydd enfawr ar iard yr ysgol gyda blwyddyn 5 a 6. Mwynheuodd pob un yn fawr iawn.

**Bore Coffi**
Diolch i deuluoedd yr ysgol am gefnogi ein bore coffi tymhorol. Hyfryd cael sgwrs a phaned gyda phawb.

**Chwaraeon**
Mae timoedd yr ysgol wedi bod yn brysur yn cystadlu mewn amrywiol gystadlaethau. Aeth ein tîm pêl droed i chwarae yn rownd derfynol cwpan RhCT ac fe chwaraeodd pawb yn wych. Mae'r tîm rygbi hefyd wedi cystadlu yng nghystadleuaeth rygbi ysgolion Pontypridd yn Heol Sardis. Aeth y tîm pêl-rwyd o gystadlu yn ysgol y Pant yng nghystadleuaeth yr Urdd. Profiadau gwych.






**Diwrnod Trwynau Coch**
Diolch i'r cyngor Iechyd a Lles am drefnu diwrnod o hwyl ar ddiwrnod Trwynau Coch. Roedd pawb yn eu dillad coch neu ddillad gwirion a chodwyd llawer o arian. Diolch yn fawr.

**Eisteddfod Gylch yr Urdd**
Cawsom ddiwrnod i'w gofio yn Eisteddfod Gylch yr Urdd gyda chantorion, llefarwyr ac actorion yn perfformio'n wych.

**Band yn y Stand**
Daeth criw ynghyd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a chanu yn y stand ym Mharc Ynysangharad. Edrychwn ymlaen at gael perfformio eto'r flwyddyn nesaf.

## Ysgol Pont-Siôn-Norton

**Y Gadair**
Llongyfarchiadau i bawb a enillodd wobrau am eu straeon a'u cerddi yn ein dathliadau Gwyl Ddewi a llongyfarchiadau mawr i Ioan am ennill y gadair eleni!



**Y Pasg**
Diolch i Ffrindiau PSN am drefnu'r partion Pasg a'r bagiau o ddanteithion hyfryd. Roedd yn hyfryd gweld yr holl hetiau gwych yn y pared hefyd!




**Pêl-rwyd**
Cafodd dim pêl-rwyd yr ysgol brofiad arbennig yn nhwrnamaint yr Urdd yn Ysgol Y Pant yn ddiweddar. Roedd yn ddiwrnod hwylus iawn wrth ymarfer a gwella eu sgiliau yn ystod gemau cyntaf mwyafrif o'r tîm. Da iawn chi!



**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i'r Parti Llefaru sydd yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol! Hwre! Diolch i Mrs Cotter am eu hyfforddi.

**Rygbi Tag Urdd**
Llongyfarchiadau i'r tîm rygbi tag am ennill cystadleuaeth Urdd y Sir - Ymlaen i Aberystwyth nesaf!



**Rygbi**
Pencampwyr y plât Ysgolion Pontypridd yw Ysgol Pont-Sion-Norton!! Rydym ni'n falch iawn o'r bechgyn.



**Dydd y Llyfr**
Roedd pawb yn edrych yn wych ar ddiwrnod y llyfr- y disgyblion a'r staff! Diolch i bawb am wneud ymdrech arbennig a chael hwyl wrth ddathlu darllen. Diolch i Ffrindiau PSN am y gwobrau.





Y Staff ar Ddydd y Llyfr

**Canu**
Fel rhan o ddathliadau Gŵyl Ddewi, fe aeth y Clwb Perfformio i ganu ym Mharc Ynysangharad yn ystod achlysur Band yn y Stand. Er gwaethaf y tywydd diflas, roedd hi'n hyfryd gweld y clwb yn perfformio mor wych!



## TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

**Diolch Jo**
Pob dymuniad da i Joanne Rees sy wedi ymddeol fel Pennaeth Ysgol Cwm-lai. Mae Jo wedi bod yn bennaeth poblogaidd a llwyddiannus ac mae parch mawr tuag at y Gymraeg yn yr ysgol, gyda'r plant yn cystadlu'n flynyddol yn Eisteddfod yr Urdd. Diolch Jo a mwynha dy ymddeoliad.



Joanne Rees gyda'i gŵr Mark a fuodd yn bennaeth yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail cyn symud i Lwyncelyn.

**Pwyllgor Codi Arian Eisteddfod 2024**
Diolch yn fawr iawn i'r criw bach ond gweithgar sydd wrthi'n trefnu digwyddiadau yn Nhonyrefail a'r Gilfach Goch. Diolch hefyd i'r holl gorau sy'n ein cefnogi. Roedd Eglwys Dewi Sant yn llawn i glywed Côr Merched Tonyrefail, y Gentlemen Songsters a Chôr Ysgol Gymraeg Tonyrefail ddydd Gwener, 8 Mawrth.



Côr Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Mae nifer o weithgareddau ar y gweill:
13 Ebrill Ras hwyaid yn y Pwll Hwyaid yn y Gilfach Goch am 12pm.
17 Ebrill Cyngerdd gyda Chantorion Richard Williams a'r Gentlemen Songsters yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail.
30 Ebrill Noson gyda'r garddwr Terry Walton yng Nghlwb y Glowyr. (Sgwrs Saesneg)
7 Mai Cyngerdd Côr Merched Taf Elai gydag ysgolion lleol
9 Mehefin Sêl Cist Car yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail
7 Gorffennaf Taith gerdded yng nghwmni Jeff Owen

# EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

**Dathlu Dydd Gŵyl Dewi**
Daeth nifer dda o bentrefwyr Efail Isaf a'u ffrindiau ynghyd i Neuadd y Pentref brynhawn Gwener, Mawrth 1af, i ddathlu gwŷl ein Nawddsant. Roedd yn braf gweld cymaint o ddysgwyr yn ein plith. Cafwyd cyfle i sgwrsio dros baned a mwynhau'r teisennau blasus. Gwahoddwyd unigolion i roi cynnig ar y grefft o ganu clychau ar ôl gwrando ar yr arbenigwr yn sôn am yr arfer o ganu clychau yn Eglwys Llantrisant. Cafodd amryw y cyfle i chwarae Bingo (yn y Gymraeg) am y tro cyntaf erioed. Daeth y prynhawn i ben drwy gyd-ganu cân neu ddwy i gyfeiliant medrus Siân Elin. Diolch i Karen Evans, Wendy Reynolds a'u ffrindiau am drefnu prynhawn pleserus, ond yn bwysicach fyth fe godwyd £500 i Gronfa Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf.

**Brysiwch wella**
Dymunwn yn dda i Arthur Garnon, Heol y Ffynnon sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ystod y mis. Yr un yw ein dymuniadau i Bethan Roberts, Parc Nant Celyn, sydd wedi derbyn triniaeth ar ei llygad. Brysiwch wella eich dau.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Steffan mab Rob a Bethan Emanuel, Tŷ Gwyn, sydd wedi ei ddewis yn gapten ar dîm rygbi Cymru o dan 18 oed. Mae'r tîm eisioes wedi curo Yr Alban ac Iwerddon. Cyn hir bydd aelodau'r tîm ar eu ffordd i Parma yn yr Eidal i Bencampwriaeth y Chwe Gwlad. Byddant yn wynebu Lloegr, Ffrainc a Portiwgal. Pob hwy; i dîm Cymru a llongyfarchiadau gwresog i Steffan.



Steffan Emanuel, capten tîm rygbi Cymru dan 18, gyda'i frawd Ioan sy'n chware rygbi i academi Gaerfaddon

**Y TABERNACL**
**Wyau Pasg**
Yn ôl ein harfer yn Y Tabernacl daeth yn amser i gasglu Wyau Pasg i'w trosglwyddo yn rhoddion i loches Cymorth i Ferched ac elusennau sydd yn helpu pobl ddigartref yn Rhondda Cynon Taf. Gobeithiwn roi ychydig o gysur a llawenydd i bobl sy'n wynebu cyfnodau anodd yn eu bywyd. Mae'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn ddiolchgar iawn am bob cefnogaeth.

**Apêl Ffynhonnau Byw**
Yn dilyn y bore gwefreiddiol a gawsom yn Y Tabernacl yng nghwmni Lleuwen Steffan fe fanteisiwyd ar yr achlysur i lansio Apêl Ffynhonnau Byw Undeb yr Annibynwyr. Llwyddwyd i godi dros £500 i gynorthwyo pobl Colombia mewn casgliad ar ddiwedd yr Oedfa.

**Brysiwch Wella**
Dymunwn yn dda i Rhiannon Price sydd yn treulio cyfnod yn yr Ysbyty yn Llantrisant. Dymuniadau da i Geraint hefyd sydd wedi derbyn triniaeth ar ei lygad yn ddiweddar. Mae Sara Davies mewn ysbyty gryn bellter i ffwrdd yn Nyfnaint wedi iddi gael codwm gwael ar y stryd tra ar wyliau yn Torquay. Dymunwn wellhad buan i'r tri.

**Merched y Tabernacl**
Wedi mwynhau prynhawn yn y Coleg Cerdd a Drama yng Nghaerdydd ar ddydd Iau, Mawrth 28ain, mae'r aelodau'n aros yn eiddgar i gael mynd i ymweld â'r Amgueddfa yn Sain Ffagan ar ddydd Gwener Ebrill 12fed gan gyfarfod yn y fynedfa am 11 o'r gloch y bore. Peidiwch colli cyfle i ymweld â'r Arddangosfa "Hawlio Heddwch."

**Dafydd Iwan yn y Tabernacl**
Mae'r arbrawf i drefnu Oedfaon arbennig ar brynhawn y trydydd Sul yn y mis yn mynd o nerth i nerth. Ar Sul, Mawrth 17eg cawsom gwmni hynaws Dafydd Iwan mewn Sgwrs a Chân. Geraint Rees fu'n cyflwyno Dafydd a bu'n holi cwestiwn neu ddau iddo. Cafodd pum aelod o Deulu Twm, Mari, Elis, Awen, Cadi a Hannah y cyfle i holi cwestiwn yr un iddo hefyd. Wrth roi ei atebion cawsom grynodeb difyr o fywyd Dafydd o'i adeg yn blentyn ifanc yn y Mans ym Mrynaman, ei gampau drygionus yn yr ysgol Seisnig "The Amman Valley Grammar School" cyn symud i Lanuwchllyn. Bu'r cyfnod yn y Coleg yn cefnogi ac arwain Cymdeithas yr Iaith yn gyfle i greu a chanu llawer o ganeuon i hybu Cymreictod. Cawsom gân am yn ail a'r atebion. Soniodd am ei ganeuon cellweirus am y tywysog neu'r brenin erbyn hyn.

Roedd canu, creu caneuon a chrefydd wedi bod yn rhan bwysig iawn o'i fywyd.

Fe wahoddodd y gynulleidfa i ymuno i ganu "Yma o Hyd" i gloi sesiwn wirioneddol ddiddorol. Casglwyd £550 ar






Iwan gyda'i arwr

gyfer prosiectau dyngarol ym Mhalesteina yn ystod y prynhawn yn ôl cais Dafydd.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Ebrill**
Ebrill 7fed Emlyn Davies
Ebrill 14eg Y Parchedig Dyfrig Rees
Ebrill 21ain Heulyn Rees ac Eleri Mai
Ebrill 28ain Y Parchedig Gethin Rhys

Fe fydd Gymanfa Ganu yng Nghapel Salem, Ton-teg ar nos Sadwrn Ebrill 20fed i ddechrau am 5 o'r gloch yr hwyr.




# Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau fil i'r holl ddisgyblion a gystadlodd yn yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Llanhari ar Chwefror 28ain a'r Eisteddfod Sir yn Nghanolfan Gynhadledd Prifysgol De Cymru ar Fawrth 15fed. Cafwyd cystadlu brwd o safon uchel gan yr holl lefarwyr a chantorion ac roedd ymddygiad y plant yn wych drwy gydol y ddwy Eisteddfod. Diolch yn fawr iawn i'r rhieni am eu cefnogaeth ac i'r staff am yr holl waith hyfforddi dros y ddeufis diwethaf. Pob hwyl i'r canlynol fydd yn cynrychioli'r ysgol a'r sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Maldwyn ym mis Mai:
Taliesin (Unawd Blwyddyn 5 a 6, Cyflwyno Alaw Werin Unigol Blwyddyn 6 ac iau, Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau)
Harri (Llefaru Unigol Blwyddyn 3 a 4).
Teleri (Llefaru Unigol Blwyddyn 2 ac iau).
Parti Unsain. Côr










**Chwaraeon**
Mae talentau'r disgyblion yn ymestyn hefyd i'r cae chwaraeon, gyda'r timau pêl-droed, rygbi a phêl-rwyd yn cyrraedd safonau uchel y tymor yma. Diolch o galon i'r staff a fu'n hyfforddi'r gwahanol dimau ac am ddioddef tywydd oer a gwlyb yn yr ymarferion a'r twrnameint er mwyn rhoi'r cyfleoedd arbennig yma i'r plant.
Dyma'r canlyniadau:
19.01.24 - Twrnamaint RhCT Bechgyn 5 pob ochr - Wedi mynd trwyddo i'r rownd nesaf. 23.02.24 - Twrnamaint RhCT Merched 5 pob ochr. 29.02.24 - Twrnamaint Pêl Droed Merched yr Urdd. 07.03.24 - Twrnamaint Rygbi Ysgolion Pontypridd - Trwyddo i'r rownd cyn derfynnol. 20.03.24 - Pêl Rwyd yr Urdd Merched – 2il









Pob lwc i bawb yn y rowndiau sydd i ddod tymor nesaf.

**Cerdyn Post Dosbarth Meithrin**
Cafodd plant y dosbarth Meithrin brofiad gwerthfawr iawn yn ddiweddar wrth fynd am dro i'r blwch postio i anfon cerdyn post adref. Thema'r dosbarth y tymor yma yw Ble Rydw i'n Byw ac fe ddysgodd y plant sut i ysgrifennu eu cyfeiriad, rhoi stamp ar y cerdyn a'i roi yn y blwch postio. Roedd y plant yn hynod o gyffrous pan gyrhaeddodd y cerdyn post eu tŷ nhw!




# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

**Swydd newydd!**
Llongyfarchiadau mawr i Huw Roberts sydd wedi cael ei benodi'n weinyddwr ar ysgol newydd sbon Groes-wen ym Mhlasdŵr yng ngorllewin Caerdydd. Mae Huw wrth ei fodd yn yr ysgol hyfryd ac arloesol hon. Mi gewch chi ddarllen mwy am yr ysgol, a'i hagoriad swyddogol, yn ei erthygl yn y rhifyn nesaf.

Mae'n gyfnod prysur i Huw, sydd hefyd wedi derbyn yr anrhydedd o fod yn Brif Stiward yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Mae o wrthi'n ddyfal chwilio am wirfoddolwyr ac mae yna groeso mawr ichi gysylltu ar 07957 182 087 neu saitherwfach@btinternet.com - cofiwch ymuno â'r hwyl!


**Noson Owain Glyndwr**
Cofiwch archebu eich tocyn ar gyfer y noson hwyl i'r teulu cyfan a dysgu mwy am hanes Owain Glyndwr. Mai 11eg yw y dyddiad yn Neuadd Eglwys Creigiau am 7.30pm. Bydd Geraint Thomas wnaeth greu gem Owain Glyndwr dros y cyfnod clo yn ein diddanu.

Bydd yr holl elw yn mynd tuag at Eisteddfod Rhondda Cynon Taf. Dewch i gefnogi cyfraniad Creigiau at goffrau'r Eisteddfod.

Tocynnau ar gael gan Teleri Jones ar telerij@yahoo.com, gan Ann Angell, Bethan Herbert neu Nia Parker

**Clwb Gwawr Crotest Creigiau a'r Cylch**
Os ydych yn siarad Cymraeg neu yn ddysgwr dewch i ymuno gyda ni yn fisol i gymdeithasu drwy'r Gymraeg. Byddwn an cael sesiwn pilates, mynd am dro, mynd am fwyd a llawer mwy'
Ebostiwch telerij@yahoo.com am fwy o wybodaeth

**Awdur ar ben rhestr Amazon**
Cyhoeddodd yr awdur o'r Creigiau, Kevan Eveleigh, ei lyfr "Short Stories with a Twist" ar ddydd Gŵyl Dewi ac erbyn diwedd y mis roedd y llyfr ar ben siartiau Amazon Kindle. Cymerodd yr awdur dwy flynedd i ysgrifennu, golygu a chynllunio'r llyfr sy'n deyrnged i'w athrawes ysgol a'i hysgogodd i lenydda. Yn dilyn llwyddiant ei lyfr mae Kevan nawr yn cychwyn ysgrifennu nofel.



# Colofn Blasus a Iachus

## Eluned Davies-Scott

## Ymprydio a gwledda

Mae Mwslimiaid ledled y byd bellach yn dod i ddiwedd Ramadan a daeth y Grawys i ben ar y 27ain o Fawrth. Mae’r ddau ddigwyddiad yn enghreifftiau o ympryd ysbeidiol neu ddyddiau/cyfnodau o ymatal rhag bwyta sy’n cael ei ymarfer fel rhan o draddodiadau crefyddol.

Yn ystod Ramadan nid yw Mwslimiaid yn bwyta nac yn yfed cydrhwng codiad a machlud yr haul. Gelwir pryd cyn-wawr cyntaf y dydd yn ystod Ramadan yn “suhoor” ac mae'r ympryd yn cael ei dorri gyda phryd o'r enw “iftar.” Mae diwedd Ramadan, ar Ebrill 10 eleni, yn cael ei ddathlu gyda gŵyl, Eid al-Fitr. Mae pobl yn ymgynnull mewn mosgiau ar gyfer gweddïau Eid, yn ymweld â pherthnasau, yn mwynhau prydau Nadoligaidd, ac yn cyfrannu at elusen. Yn draddodiadol, mae'r Garawys hefyd yn gorffen gyda defodau tebyg gyda thraddodiadau'r Pasg yn dechrau ar Ddydd Iau Cablyd.

Mae pobl yn ymprydio am resymau eraill hefyd ac mae ymprydio ysbeidiol / bwyta â chyfyngiad amser wedi dod yn boblogaidd gyda’r honiadau y bydd y math hwn o ddiet yn eich gwneud chi’n fwy heini a hyd yn oed edrych a theimlo yn iau! Yn ôl pan oeddem yn helwyr-gasglwyr a'n systemau corfforol wedi esblygu i weithio mewn cydbwysedd, roedd absenoldeb ystod eang a chyflenwad rheolaidd o fwydydd yn golygu bod ymprydio weithiau'n digwydd yn naturiol. Credir y gallai ymprydio ysbeidiol ein helpu i ailosod y systemau hyn, atal afiechyd a’n helpu i fyw'n hirach.

Y fersiwn mwyaf adnabyddus o ymprydio ysbeidiol yw'r diet 5:2 a gyhoeddwyd yn y llyfr *The Fast Diet* gan Dr Michael Mosley yn 2013.



Mae'r dull hwn o ddiet rhan-amser yn canolbwyntio mwy ar sut rydych chi'n bwyta na'r hyn rydych chi'n ei fwyta. Y ddamcaniaeth y tu ôl i'r diet yw bod y corff, ar ôl cyfnod o oriau gyda chaloriau cyfyngedig, yn newid o'r cyflenwad parod o egni o fwyd i losgi ei storfeydd braster. Mae ei symlrwydd, a'r ffaith y gallwch chi fwyta bron iawn yr hyn rydych chi'n ei hoffi pum niwrnod yr wythnos, yn allweddol i boblogrwydd y diet 5:2. Argymhellir bod dietwyr yn bwyta nifer ‘normal’ o galorïau am bum niwrnod ac yna, am ddau ddiwrnod heb fod yn olynol, yn bwyta dim ond 25 y cant o’u cyfanswm calorïau arferol - 500 o galorïau i fenywod a 600 i ddynion. Mae'r patrwm diet hwn yn hyrwyddo bwyta'r hyn rydych chi ei eisiau am bum diwrnod yr wythnos, yna torri calorïau ar gyfer y ddau arall yn ddramatig. Mae llawer o ddilynwyr yn gweld y drefn hon o fwyta fel llai o 'ddiet' ac yn fwy o ffordd o fyw a all eu helpu i gynnal eu colli pwysau yn y tymor hwy. Serch hynny, mae ymprydio yn brofiad personol ac mae rhai yn adrodd eu bod yn teimlo'n isel mewn egni, yn methu canolbwyntio, ac yn profi cur pen a phendro ar ddiwrnodau ymprydio.

Os ydych chi'n ceisio defnyddio'r patrwm bwyta hwn fel ffordd o golli pwysau bydd y canlyniadau a gewch yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol a faint o bwysau y mae'n rhaid i chi ei golli. Hefyd, bydd angen i chi fod yn ofalus nad ydych yn gor-fwyta (‘binge’ bwyta) ar ddiwrnodau o fwyta’n normal.

Yn ogystal â cholli pwysau, mae honiadau eraill yn nodi y gallai cyfyngu ar galorïau fod yn gysylltiedig â gwella gweithrediad yr ymennydd, lleihau'r risg o glefyd y galon, strôc a chanser, gwella lefelau colesterol a rheolaeth siwgr gwaed. Fodd bynnag, mae llawer o'r honiadau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth anecdotaidd. Er bod mwy o dystiolaeth yn dod i'r amlwg ynghylch manteision neu ddiffygion y math hwn o ddiet, nid oes, hyd yn hyn, astudiaethau dynol i gefnogi'r honiadau hyn yn llawn. O ran y risgiau sy'n gysylltiedig â mynd am ddiet 5:2 a bwyta cyn lleied â phosibl o galorïau ar 2 ddiwrnod nad yw'n olynol yr wythnos, mae'n annhebygol o fod yn beryglus i berson normal, iach. Fodd bynnag, fel gydag unrhyw newid mawr mewn diet neu ymarfer corff, dylech wirio gyda’ch meddyg teulu yn enwedig os oes gennych ddiabetes, problemau gyda’r afu neu’r arennau, neu gyda system imiwnedd sydd dan fygythiad.

Yn gyffredinol, mae dietegwyr yn ffafrio pobl i ddod o hyd i ffordd gynaliadwy, hirdymor o fwyta'n iach; ac fel pob diet mae'n ymwneud â chydbwysedd. Yn yr un modd â chynlluniau diet eraill, mae poblogrwydd y diet yn rhoi cyfle i unigolion a chwmnïau masnachol wneud arian trwy gynnig atchwanegiadau, prydau parod, llyfrau ryseitiau a chyngor gwasanaeth i'r rhai sydd angen rhywfaint o anogaeth i ddilyn y math hwn o ddiet!

I’r rhai sy'n ystyried rhoi cynnig ar ddiet ymprydio ysbeidiol y cyngor sylfaenol yw

-sicrhau eu bod yn yfed digon o ddŵr i gadw'n hydradol; mae te llysieuol yn dda hefyd;

-osgoi carbohydradau wedi'u mireinio ar ddiwrnodau o ymprydio, gallant wneud i chi deimlo'n fwy newynog oherwydd bod eich lefelau siwgr yn y gwaed yn cyrraedd uchafbwynt ac yn gostwng mor gyflym pan fyddwch chi'n eu bwyta;

- cyn diwrnod o ymprydio dewiswch fwydydd protein ynghyd â grawn cyflawn, llysiau deiliog, codlysiau i deimlo'n llawnach am fwy o amser a chael yr holl faetholion sydd eu hangen arnoch. Mae Powlen Bwda yn ffordd dda o gael cymysgedd dda o faetholion ar ddechrau neu ddiwedd cyfnod o ymprydio; mae’n cynnwys cymysgedd o rawn cyflawn fel bulgur, cwinoa neu gwscws, amrywiaeth o lysiau rhost, rhai cnau a hadau a rhywfaint o brotein fel hummus, fetah, tofu neu gyw iâr gyda dresin blasus;





- dilyn cyfarwyddiadau ar gyfer bwyta’n iach gan sicrhau eich bod yn dilyn diet cytbwys ar ddiwrnodau nad ydych yn ymprydio.

- Ar y dyddiau o ymprydio ceisiwch baratoi bwydydd diddorol a blasus a rhowch gynnig ar rai ryseitiau newydd. Mae awgrymiadau da o fwydydd maethlon a blasus sydd â 250 o galorïau neu lai ar wefan Good Food sy’n addas hefyd ar gyfer prydiau arferol. Dyma rai dwi yn eu defnyddio: Mêr wedi’u stwffio; Draenogyn y môr gyda sinsir, tsili a shibwns; cyri gwygbys, tomato a sbigoglys; wyau gyda phupurau a winwns; cawl sbeislyd moron a chorbys.











.....ac ar ddiwrnodau gwledda, i ddathlu diwedd y Grawys neu Ramadan, mwynhewch rai bwydydd traddodiadol – yn gymedrol wrth gwrs!

## Merched y Wawr Cangen y Garth

**Arfon Haines Davies - ein gŵr gwadd hynod ddifyr!**
Diolch o galon i'r digymar eicon - Arfon Haines Davies - am awr a mwy o ddifyrrwch pur b'nawn Mercher, yr 20fed o Fawrth yng Nghlwb Rygbi, Pentyrch.



Daeth cynulleidfa dda o Ferched y Wawr y Garth ynghyd i wrando ar yr hyn alwai Arfon yn 'Falu Awyr'! Wel, os taw dyma beth yw Malu Awyr - gallem wneud â dôs go lew o hyn yn wythnosol - cyfarfod codi gwên, codi hiraeth a chodi calon! Bu'n hel atgofion a rhannu profiadau dwys a digri fel ei gilydd yn ei ffordd gynnes, ddi-ymhongar. Gan ein bod yn gynulleidfa o rhyw oedran arbennig deuai pwdin reis ei fam - gyda'r croen - a'r baw? baw Arfon! - ag atgofion melys iawn yn ôl i lawer. A'r trip adre - i weld ei Fam yn y gogledd pell - a'r cwestiwn - 'lle gawn ni fynd am run bach, Arfon?' yn dilyn yn syth ar ôl cyrraedd wedi teithio pedair awr! Dyddiau ysgol. Atgofion cymysg. Yr 'eleven plus' bondigrybwyll â'i sgîl-effeithiau! Y symud ysgol anochel ag yntau'n fab y Mans - mynd o Colditz i Butlins! Cracyr o stori! Yn wylaidd - soniodd am ambell enw mawr y cafodd y fraint o'u cyfarfod yn rhinwedd ei swydd. Doedd dim angen eu henwi, roedd y dynwarediadau yn ddigon! Gwych iawn. Ond un arwr arbennig oedd Hank Marvin - ac fe gafodd Arfon y cyfle i'w gyfarfod yn Stiwdios Elstree yn Llundain pan drefnodd ei Dad ymweliad â'r lle. Dyna lle'r oedd Cliff a'r Shadows yn recordio rhaglen! Dal i weld Arfon â'i hen raced dennis bren yn dynwared Hank! Pleser pur oedd eistedd nôl, a mwynhau Arfon yn ail-fyw profiadau'r gorffennol. Diolch o galon am ddod atom - ac am eich haelioni.

Cyfarfod nesa - Siwan Hill - Ebrill 17eg - yn y Clwb Rygbi, Pentyrch am ddau. Dewch yn llu!

Dal i gasglu sgarffiau a jingilarings at Apêl y Llywydd!



## Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

**Band yn y Stand**
Mewn partneriaeth â Chanolfan Calon Taf a Chlwb y Bont, trefnwyd diwrnod o gerddoriaeth Cymraeg am ddim yn y Bandstand ym Mharc Ynysangharad fel rhan o Ŵyl Cymru Cymdeithas Pêl-droed Cymru. Roedd hi'n ddiwrnod braf gyda pherfformiadau gwych gan Ysgol Pont Siôn Norton, Ysgol Castellau, Ysgol Evan James, Ysgol Heol-y-Celyn, Dadleoli, Star Factor, Lucie Chivers, Côr Cymunedol Pontypridd, Catrin Herbert, Côr Drive Wales a Ble.Ydyn.Ni.

Daeth gwestai arbennig i ymuno yn yr hwyl hefyd, y pêl-droediwr Danny Gabbidon. Roedd pwyllgor Apêl Pontypridd yn gwerthu diodydd, cacennau a nwyddau er mwyn codi arian i'r Eisteddfod. Diolch i bawb am eich cefnogaeth.



**Gig 14+ Gŵyl Ddewi yn Clwb y Bont gyda Taran a Ble.Ydyn.Ni**
Cynhaliwyd ail gig 14+ yng Nghlwb y Bont i ddathlu dydd Gŵyl Dewi gyda'r bandiau ifanc Taran a Ble.Ydyn.Ni. Roedd hi'n noson wych ac yn braf gweld cymaint o bobl ifanc yn dod i fwynhau noson o gerddoriaeth Cymraeg.

**Clebran ar GTfm**
Mae'r sioe Clebran mewn partneriaeth â GTfm yn mynd o nerth i nerth. Mae'r rhaglen wythnosol newydd gyda Cerys a Gwenno yn cael ei ddarlledu ar nos Fawrth rhwng 7yh ac 8yh. Dros y misoedd diwethaf, mae'r ddwy wedi bod yn gwirfoddoli a derbyn hyfforddiant radio gyda'r Fenter a GTFM. Daeth Tinopolis allan i ffilmio nhw y mis yma ar gyfer rhaglen Prynhawn Da / Heno hefyd. Gwrandewch ar 107.9 FM (ardal Pontypridd, Rhondda, Llantrisant), 107.1 FM (Aberdâr) a 100.7 FM (Aberpennar) GTFM.CO.UK nos Fawrth am 7yh am sioe llawn clebran a cherddoriaeth Cymraeg.

**Gweithdy Radio Llanhari a Cwm Rhondda gyda Steffan Crocker**
Cynhaliwyd gweithdai radio a phodlediadau gyda Steffan Crocker o Cymru FM ym mis Mawrth yn Ysgol Cwm Rhondda ac Ysgol Llanhari. Roedd y gweithdai yn gyfle i ddatblygu cyflwynwyr y dyfodol ac roedd pawb wedi gwneud yn wych. Daeth Tinopolis i ffilmio'r sesiwn yn Ysgol Llanhari hefyd. Diolch i bawb ymunodd â'r sesiynau!

**Prosiect Cwilt Er Clod i Ferched Rhondda Cynon Taf**



Prosiect i ddathlu merched Rhondda Cynon Taf yw Cwilt Er Clod. Mewn partneriaeth â Merched y Wawr, Growing Space Pontypridd a'r Fforwm 50+ cynhaliwyd gweithdai arbennig ym mis Mawrth. Yn ystod y gweithdai hyn roeddem yn defnyddio papur trosglwyddo ffotograffig i ymgorffori llun ar frethyn a chan ddefnyddio ffabrig wedi'i ailgylchu, paent a brodwaith roeddem yn trawsnewid y delweddau hyn yn weithiau celf lliwgar. Bydd y gweithiau celf hyn yn dod yn rhan o gwilt torfol wedi'i ysbrydoli gan Gwiltwyr y Porth a'u harddangos ar gyfer Eisteddfod 2024.

Buon ni'n dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod gydag Amgueddfa Pontypridd hefyd ar y 10fed o Fawrth lle roedd cyfle i ddysgu am hanes menywod Pontypridd ar daith gerdded treftadaeth gydag Archif Menywod Cymru ac chyfle i sgwrsio gyda ni, dysgu mwy am y prosiect Cwilt Er Clod a chynnig syniadau ar gyfer y cwilt. Diolch i Dr Elin Jones a Dr Christine Chapman o Archif Menywod am daith gerdded hynod ddifyr ac addysgiadol. Cawson ni lawer o ysbrydoliaeth ar gyfer ein prosiect.

**Hapus i Siarad**
Cawson ni fore braf yn Aberdâr ar y 6ed o Fawrth yn siarad â busnesau a dysgwyr yr ardal am y cynllun "Hapus i Siarad". Cynllun newydd ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a'r Mentrau Iaith yw "Hapus i Siarad" i helpu dysgwyr Cymraeg i ymarfer a defnyddio'r iaith yn eu cymunedau. Mae 10 busnes â siaradwyr Cymraeg wedi ymuno â'r cynllun a derbyn nwyddau iaith gwaith sydd yn wych!

**Sefydlu grŵp Clonc Cynon yn Aberdâr**
Yn dilyn sesiwn blasu paned a sgwrs llwyddiannus yn St Elvans Aberdâr ar y 6ed o Fawrth, y grŵp Clonc Cynon yn cwrdd pob dydd Mercher rhwng 11:30yb a 12:30yp yn siop goffi Eglwys St. Elvans ac yn gyfle i ymarfer a defnyddio eich Cymraeg. Mae croeso mawr i ddysgwyr a siaradwyr rhugl. Dewch yn llu!

Am y newyddion diweddaraf - **Dilynwch ni!** Gallwch chi danysgrifio i'n rhestr e-bost yma: www.menteriaith.cymru/tanysgrifio-subscribe
**Facebook:** @MenterIaithRhCT
**Twitter:** @MenterIaithRhCT
**Instagram:** @menteriaithrhct
**Gwefan:** www.menteriaith.cymru
**E-bost:** post@menteriaith.cymru
**Ffôn:** 01443 407570

# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**

**Mis Ebrill 2024:**
7fed Ebrill – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn
14eg Ebrill – Oedfa dan ofal Arwel Ellis Owen
21ain Ebrill – Oedfa Ardal dan ofal Wyn Jones
28ain Ebrill – Oedfa dan ofal y Parchedig Robert Owen Griffiths
**Mis Mai 2024:**
5ed Mai - Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn
12fed Mai – Oedfa Cymorth Cristnogol
19eg Mai – Oedfa dan ofal y Parchedig Jeff Williams
26ain Mai – Oedfa dan ofal Eirian Dafydd

---oooOOOooo---

Bydd gwybodaeth helaeth gan y mwyafrif o ddarllenwyr Tafod Elái am bentref Senghennydd, yn benodol oherwydd y trychineb erchyll a ddigwyddodd mewn tanchwa yno, yng Nglofa'r Universal, ychydig ar ôl 8 o'r gloch y bore ar y 14eg o Hydref 1913, pan gollodd 439 o lowyr eu bywydau. (Roedd 81 o lowyr eisoes wedi eu lladd mewn trychineb arall yn yr un pwll glo yn 1901). Hon oedd y trychineb fwyaf o ran colledion a ddigwyddodd mewn unrhyw lofa yng ngwledydd Prydain. Gadawyd 205 o wragedd yn weddw, a 542 o blant heb dad o ganlyniad i'r danchwa.

Nid oedd mynwent yn Senghennydd ar gyfer y meirwon, a chariwyd rhai o'r eirch bedair milltir dros y mynydd i Egwysilan i'w claddu. Rhoddwyd gweddillion eraill i orffwys ym mynwent Penyrheol.

Yn yr ymchwiliad a ddilynodd, cyfeiriwyd at y camgymeriadau a arweiniodd at y danchwa, a chyhuddwyd Edward Shaw, y rheolwr, a pherchnogion y lofa, o esgeulustod. Derbyniodd y rheolwr ddirwy o £24 (am beidio cadw cofnod amgylcheddol digonol, ac am beidio ail-osod clo ar y cwpwrdd lampau), a'r perchnogion £10 - yn rhoi gwerth ar bob colier a gollwyd o ryw "swllt a ceiniog a ffyrling" yn yr hen arian (tua £14 heddiw)!

Agorwyd gardd goffa'r pentref yn swyddogol ar ganmlwyddiant y trychineb yn 2013, ac fe ŵyr y rheini ohonoch sydd wedi ymweld â'r ardd ei bod yn coffau nid yn unig y rhai a fu farw yn Senghennydd, ond hefyd pawb a laddwyd mewn trychinebau glofaol ar hyd a lled Cymru.

A bellach, yn ol datganiad diweddar gan Lywodraeth Cymru:-

*"...mae wedi cael ei hychwanegu at y Gofrestr Statudol o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cymru* a'i chymeradwyo gan y Prif Weinidog, Mark Drakeford...*

[*Cofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru – mae bron i 400 o safleoedd ledled Cymru sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig wedi eu rhestru hyd yma, yn barciau, gerddi, tirweddau addurnol a ddyluniwyd, mannau hamdden a thiroedd eraill a ddyluniwyd.]

*Mae glofeydd yn rhan fawr o'n hunaniaeth fel cenedl. Dros ganrif ar ôl trychineb Senghennydd, ac wrth i ni nodi 40 mlynedd ers streiciau'r glowyr, mae gwaddol y diwydiant glo yn dal i fod yn rhan ganolog o hanes Cymru.*

*Priodol felly yw bod safle o bwysigrwydd symbolaidd fel Gardd Goffa Lofaol Genedlaethol Cymru yn cael ei chydnabod yn ffurfiol - gan anrhydeddu'r miloedd o lowyr fu farw mewn trychinebau glofaol ledled Cymru, tra'n cadw'r diwylliant a'r cof am gymunedau glofaol yn fyw.*

*Mae'r safle'n cynnwys cerflun efydd, sydd yn darlunio gweithiwr achub yn helpu glöwr sydd wedi goroesi'r danchwa, wal goffa yn coffáu'r rhai a gollodd eu bywydau yn y ddau drychineb a fu yn Senghennydd, yn 1901 a 1913, a llwybr cofio gyda theilsen ar gyfer pob un o'r 152 o drychinebau glofaol sydd wedi digwydd ledled Cymru.*"

Ar un o'r teils rheini, fe geir un ag enw Glofa'r Llan arni, ac os nad ydych y siŵr o'r lleoliad, bydd pawb sydd wedi tramwyo'r ffordd o gyfeiriad Caerdydd i Fethlehem, Gwaelod-y-garth, ar foreau Sul yn croesi, ar y dde, ychydig cyn cyrraedd mynedfa'r Ysgol, geg y fynedfa (drifft) i'r lofa arbennig yma.

'Roedd y pwll, a agorwyd yn 1870 (tair blynedd gwta cyn agor y Capel Bethlehem presennol), dan berchnogaeth Messers T.K.Booker a'i Gwmni Cyfyngedig.

Eto bydd nifer ohonoch yn gyfarwydd â'r hanes, ond rhag ofn nad ydych, gadewch i mi eich atgoffa mai yma y digwyddodd damwain angheuol ar y 6ed o Ragfyr 1875. Roedd rhyw 150 o weithwyr (allan o'r 300 a gyflogid) yn y pwll y bore oer hwnnw pan oedd yr eira'n wyn dan droed.

Lladdwyd 12 o ddynion a phlant, un yn 12 oed, yn y ddamwain, a bu 4 arall farw o effaith y danchwa yn ddiweddarach.

Un o'r meirw oedd Abraham Phillips, "*overman*" y lofa, un a fyddai a chyfrifoldeb am arolygu'r Pwll yn ddyddiol er sicrhau diogelwch. Ar y bore tyngedfennol yma, mae'n debyg fod rhybudd wedi ei roi iddo gan un o'i gyd-weithwyr fod nwy yn y pwll - roedd system awyru'r lle yn ddiffygiol - ond ei anwybyddu gwnaeth Abraham, ac am 6:30 a.m. mentrodd i mewn gyda'r gweithwyr. Erbyn 9:30 y bore, roedd yn farw.

Yn ôl y Crwner yn y ymchwiliad, ei esgelustod ef fu'n gyfrifol am y ddamwain. Ni chanfuwyd bai o gwbl ar berchenog y pwll!

Claddwyd Abraham Phillips a phedwar arall o'r meirwon ym mynwent Eglwys Sant Catwg, Pentyrch; gorwedd un arall ym mynwent Horeb, a dau ym mynwent Penuel yn y pentref.

Fel eleni, roedd y Pasg yn gynnar yn 1875, a bu i ail fab hynaf Abraham, sef Phillip Phillips briodi a Hannah Thomas bryd hynny, cyn symud i weithio i Lerpwl. Ychydig a wyddent ymysg y dathlu bryd hynny am y llanastr a fyddai'n eu hwynebu fel teulu cyn diwedd y flwyddyn.

Mae Ann Gray yn or-or-nith i Abraham Phillips, a bu a rhan flaenllaw, pan ddadorchuddiwyd plac i gofio'r gyflafan, yng nghwmni Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru ar y pryd.

Roedd Ann, a'i mam, Nest Jeremy, yn aelodau ym Methlehem, a hen-fodryb iddi oedd Hanna, gwraig Y Parchedig R G Berry.

Rhieni Abraham Phillips oedd John Phillips (1786 - 1871) a Deborah Thomas (1796 - 1882), dau a fedyddiwyd yn yr Afon Taf yn ystod cyfnod Diwygiad 1859 gan y Parchedig John Evans, Gweinidog Capel Bedyddwyr Penuel, Pentyrch.

Trosglwyddwyd eu haelodaeth i Gapel Salem (B), Gwaelod-y-garth, wedi adeiladu hwnnw yn 1863.

A'r John Phillips yma, neu'n hytrach Shon o'r Lan, fel y'i gelwid, oedd cychwyn y "Wythien Fawr" [14 o blant, o leiaf 54 o wyrion ac wyresau, a mwy na 150 o or-wyrion ac wyresau] a fu mor ddylanwadol yma yng Ngwaelod-y-garth a'r cyffiniau mewn sawl maes - yn grefyddol, yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol a mwy - fel y soniodd Prys Morgan yn ei gyflwyniad ysgubol i Gylch Cadwgan ym mis Hydref 2023, "*dyma'r teulu (Y Philipiaid) a oedd fwy neu lai yn rhedeg y capel a phopeth arall yn y pentref*". Ac ymhellach, y sylw aml haenog "*I Fethlehem yn y pen draw yr aeth yr holl Philipiaid*"!

Mae yna lawer o wybodaeth bellach ar gael am y danchwa ar dudalen "Gweplyfr" Prosiect Hanes Glofa'r Llan (*Lan History Project).*

Dechreuwyd cynnal Gwasanaeth Coffa yn 2012, ac mae plant Ysgol Gynradd Gwaelod-y-garth a rhan yn y cofio hwnnw ar y 6ed o Ragfyr bob blwyddyn.



Arhoswch a chymerwch gip ar safle Glofa'r Llan a'r gofeb ar eich ffordd adre o'r oedfa rhyw fore Sul!

# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

**Corau a Chodi Arian**

Nos Fercher, Mawrth yr 20fed, yn neuadd ysgol Y Pant, Pontyclun, cynhaliwyd cyngerdd i godi arian at Eisteddfod 2024 gyda thri o gorau yr ardal. Trefnwyd y cyngerdd gan Gôr Godrau'r Garth a phwyllgor apêl Llantrisant, Pontyclun a Meisgyn. Yn ymuno â chôr Godre'r Garth roedd côr plant Ysgol Gynradd Gymraeg Gymunedol Llantrisant, dan arweiniad Sara Williams a Lisa Morrish, a Chôr Tadau Trisant, dan arweiniad Tim Edwards a Nia Edwards yn cyfeilio. Cyflwynwyd y noson gan Alun Thomas.

Yn gynharach yn y mis teithiodd côr Tadau Trisant i Ystum Llwynarth, Abertawe, ar gyfer cyngerdd apêl elusen 2 Wish yn y gorllewin. Mae'r elusen, sy'n cefnogi teuluoedd mewn profedigaeth ar ôl colli plant, wedi sefydlu cangen yn yr ardal yn ddiweddar. Mi fu pwyllgor Apêl Llantrisant ar gyfer yr Eisteddfod yn brysur yn gynharach yn y mis yn ogystal, wrth gynnal noson gyda Dafydd Wigley. Mae'r cyn-wleidydd yn berthynas i Murray The Hump, un o 'gangsters' Al Capone, a chafwyd noson ddifyr yn sôn am yr hanes.

Digwyddiad nesaf y pwyllgor yw Te Prynhawn ar Ebrill y 13eg yn neuadd gymunedol Pontyclun. Mae tocynnau ar werth a gallwch archebu rhai o flaen llaw trwy gysylltu â nia.donnelly@live.co.uk



*Corau Godre'r Garth a Thadau Trisant yn ymuno i gloi y gyngerdd wrth ganu 'O Gymru', Rhys Jones.*




**Archfarchnad yn Agor**

Ddiwedd Chwefror agorwyd siop Sainsbury's newydd sbon yr ardal, rhwng Llantrisant a Phontyclun. Mae hyn yn dilyn blynyddoedd o baratoi y tir. Bydd siopwyr Tesco wedi gweld cryn newid yn ei archfarchnad cyfagos yn ogystal, wrth iddyn nhw baratoi am y gystadleuaeth newydd. Yn ogystal â'r archfarchnad mae yno ychydig o siopau llai ar y safle, a siop goffi Starbucks, lle medrwch gael gwasanaeth yn gymraeg gan ambell i un o'r gweithwyr.

**Clebran ar Orsaf Radio GTFM**

Bob nos Fawrth am 7y.h., ers cychwyn y flwyddyn, mae dwy o ferched ifanc yr ardal wedi bod yn darlledu rhaglen gymraeg newydd. Clebran yw enw'r rhaglen ac mae'n cael ei darlledu'n fyw ar orsaf radio GTFM, sy'n wasanaeth yn ardal Pontypridd, ac ar y wê.

Cerys Hulse, Meisgyn a Gwenno Roberts, Llantrisant yw'r cyflwynwyr, y ddwy yn yn fyfyrwyr Chweched Dosbarth ar hyn o bryd. Mae'r rhaglen yn gyfuniad o ganeuon cyfoes Cymraeg a sgwrsio. Prosiect ar y cyd rhwng yr orsaf a Menter Rhondda Cynon Taf, dan arweiniad Osian Rowlands, yw hwn. Bu'r ddwy gyflwynwraig newydd yn derbyn hyfforddiant am wythnosau gan yr orsaf, a Gavin o GTFM, cyn cael eu cyfle i ddarlledu. Erbyn hyn mae'r Fenter yn hyfforddi eraill a mae prosiect gydag ysgol Llanhari i greu deunydd sgwrs Cymraeg ar gyfer y wê. Bu Cerys a Gwenno wrthi yn helpu disgyblion iau gyda hyn mewn sesiwn yn Llanhari yn ystod y mis. Ac o bosib medrwch weld ychydig mwy o'u hanes ar raglen Heno cyn hir, ar ôl iddyn nhw fod yn ffilmio eitem ar gyfer y rhaglen.

Fe gewch glywed Cerys a Gwenno am rai wythnosau eto am 7y.h bob nos Fawrth. Ac mae'n bosib ail-wrando ar y wê. Chwiliwch am dudalen gwê GTFM.

**Gwellhad Buan**

Dymuniadau gorau i ddwy o'r ardal. Mae Rhiannon Price a Sara Davies, y ddwy yn golofnwyr i'r Tafod, wedi dioddef anhwylderau yn ddiweddar ac wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Pob dymuniad iddynt a'u teuluoedd.

**Llwyddiant Rygbi Ysgol Y Pant**

Llongyfarchiadau i dîm rygbi bechgyn blwyddyn 9 ysgol Y Pant am ennill cwpan undeb rygbi Cymru, yn eu hoedran. Cynhaliwyd y gemau terfynol yn y Stadiwm y Principality ar Fawrth 21. Enillodd y tîm drwy guro tîm ysgol Bro Myrddin yn y rownd derfynol.

**Merched y Wawr**



Heledd Hughes oedd ein gwestai ym mis Mawrth. Yn 2020, sefydlodd Heledd fusnes ei hun, Milddail.Yn ystod cyfnod clo'r pandemig, bu'n brysur iawn yn dosbarthu tuswau o flodau fel ffordd i deuluoedd a ffrindiaiu gadw cysylltiad â'u hanwyliaid. Erbyn hyn, mae'r busnes wedi ehangu i gynnwys priodasau, angladdau a chyrsiau gwneud torchau Nadolig. Un fenter lwyddiannus iawn a gynhaliwyd eleni oedd dosbarthu rhosyn coch gyda cherdd gan Mererid Hopwood ar ddiwrnod Santes Dwynwen. Yn ei harddegau cychwynnodd ei chariad hi at flodau pan gafodd hi waith ar ddyddiau Sadwrn mewn siop fflorist ac fe gawsom weld ei dawn wrth iddi baratoi torch ar gyfer y Pasg.



# PENTYRCH

*Gohebydd Lleol:*
*Marian Wynne*

**Cinio Gŵyl Dewi**
Yr academydd a'r sylwebydd gwleidyddol yr Athro Richard Wyn Jones oedd y gŵr gwadd yng nghinio Gŵyl Dewi Clwb y Dwrlyn yn De Courceys. Er i ni gael cinio blasus iawn doedd dim peryg i unrhywun gwympo i gysgu wrth wrando ar sgwrs feistrolgar a heriol yr athro yn ystyried y gorffennol, y presennol a'r dyfodol o safbwynt refferenda 1979, 1997, a 2011.

Yn 1979 cafwyd siom a thynnodd sylw at ymateb digalon beirdd fel T. James Jones a Jon Dressel.(Janus.)

"Y pridd yn sur
Yn sur i'w goluddion"
mewn gwlad lle 'roedd y
"coed yn diferu llygredd
A'r perthi'n hongian gan haint."

Erbyn 1997 roedd pethau'n wahanol ac enillwyd y bleidlais o drwch blewyn. Cyfeiriodd yr Athro at gerdd Dafydd John Pritchard

"Er poenau'r oriau hirion a disgwyl
Dy esgor anfodlon
Y lleisiau oll a'r holl sôn –
Un waedd egwan oedd ddigon."

Yn 2011 gwelwyd trosglwyddo pwerau deddfu llawn i"r Cynulliad fel y'i gelwid bryd hynny.

Gyda Brexit a'r pwyslais ar sofraniaeth Brydeinig a llywodraeth Doriaidd yn Llundain yn mynd yn fwy fwy adain dde dywedodd bod yr ymgais i danseilio grymoedd a breiniau Senedd ddatganoledig Caerdydd yn dwysáu.

Felly, wrth iddo edrych i'r dyfodol credai bod Bil Senedd Cymru a'r gobaith o gael 96 aelod yn fodd i gryfhau democratiaeth a rhoi gwell cynrychiolaeth. Er y diffygion, mae un cam ymlaen yn well na dim. Eto pwysleisiodd Richard Wyn Jones y dylid osgoi'r ateb syml a pharhau i frwydro i gael Senedd yng Nghaerdydd sydd yn fwy na meithrinfa i aelodau sydd am ennill sedd yn San Steffan.


Cafwyd digon i gnoi cil arno ac roedd y sgwrsio wrth adael yn arwydd sicr o hynny.

**Chwaraeon**
Llongyfarchiadau i Gruff Gibbs, Troed y Garth sydd yn ddisgybl yn Ysgol Plasmawr wedi iddo gael ei ddewis i chware criced i dîm dan 13 Cymru.

Llongyfarchiadau hefyd i Siôn Davies, Parc y Fro wedi iddo yntau gael ei ddewis yn aelod o sgwad rygbi dan 18 Cymru.

**Dymuniadau Da**
Danfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Ken Evans, Maes y Sarn sydd yn yr ysbyty. Gobeithio y byddi adre cyn hir Ken.

**Clwb y Dwrlyn**
"Yn goron o wladgarwr." Dyna oedd teitl y cyflwyniad a gafwyd gan R Gwynedd Parry, Pennaeth Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Sôn oedd am y Barnwr Gwilym Williams o Feisgyn. Y tu allan i Lys y Goron yng Nghaerdydd saif cerflun nodedig o'r barnwr gan Goscombe John. Eto, ym marn Gwynedd Parry cafodd ei anwybyddu gan haneswyr, er ei fod yn unigryw yn hanes gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru oherwydd ei daerineb yn cefnogi'r Gymraeg ac addysg Gymraeg a'i gydymdeimlad â'r werin.



Fel barnwr gellid ei alw yn "bregethwr cyfiawnder," meddai Gwynedd Parry. Siaradai a holai'r tystion yn Gymraeg ac roedd yn ddyn ffraeth. Un tro cafodd gwraig gŵr a oedd wedi ei gosbi am fynd i ddyled bryd o dafod ganddo am wastraffu arian ei gŵr ar ddillad crand.

Fel ei dad, David Williams (Alaw Goch) roedd yn eisteddfotwr brwd a bu'n llywydd ac yn feirniad yn Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd 1893. Pan wrthododd un o feirniaid y Gadair gydweld â'r ddau arall , gorchmynnodd iddo adael y llwyfan. (Gobeithio na ddigwydd hynny yn 2024!)

Cydoeswr iddo oedd y barnwr a'r awdur T Marchant Williams a chwaraeodd ef hefyd ran amlwg ym mywyd diwylliannol a gwleidyddol Cymru ar ddiwedd y 19g a dechrau'r 20fed. Fel Gwilym Williams roedd yn ffraeth ac oherwydd hynny cafodd y llysenw ," The Acid Drop."

Wrth gloi nododd Gwynedd Parry nad oedd yn hawdd pwyso Gwilym Williams yng nghlorian hanes. Er ei fod yn frwd o blaid y Gymraeg meddylfryd a moesau ei oes oedd ganddo.

Bu'n noson ddiddorol wrth ddysgu am gefndir teulu gwesty'r Miskin Manor.



# Menter Caerdydd

**Tymor newydd o weithgareddau ar gyfer y gwanwyn**

*Mae Menter Caerdydd yn dathlu ar ôl cyrraedd y brig mewn dau gategori yng Ngwobrau Cardiff Life yn ddiweddar – 'Cyfraniad at y Gymraeg' a'r wobr am y 'Digwyddiad Gorau' ar gyfer Tafwyl. Rydym yn ddiolchgar iawn i bob un ohonoch am gefnogi ein gweithgareddau amrywiol ac i'n holl bartneriaid am eu cefnogaeth barhaus. Ymlaen â'r gwaith!*



Bethan a Gruff yn derbyn gwobrau Menter Caerdydd yn Noson Wobrwyo Cardiff Life

Gyda'r nosweithiau'n ymestyn a'r tywydd yn gwella, dyma'r amser delfrydol i fwynhau ychydig o awyr iach. Beth am ymuno â'r clwb garddio newydd i rannu syniadau ar gyfer plannu a thyfu? Neu dewch am dro wrth i sesiynau 'Cerdded a Chlonc' ail-ddechrau ar gyfer yr haf!

Dyma flas o arlwy Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg dros yr wythnosau nesaf:



Y delynores Bethan Nia yn perfformio yng nghyngerdd Mewn Tiwn

**Garddio**
Methu'n lân â thyfu tatws? Malwod yn bwyta'r begonias? Os ydych chi'n chwilio am ysbrydoliaeth ar gyfer creu a chynnal eich gardd, ymunwch â ni bob nos Iau o 11 Ebrill. Dyma gyfle i bawb sydd â diddordeb mewn potiau a phridd ddod at ei gilydd i rannu profiadau a chyngor. Lleoliad: Festri Capel Salem, Treganna a Gerddi Cymunedol Chapter, 7:00-8:30yh. Pris: £30 am 3 sesiwn.

**Sgwrs y Mis**
Yn ein sgwrs nesaf ar Zoom, bydd yr Athro M. Wynn Thomas yn ein cyflwyno i'w gyfrol newydd, *Poems from the Soul: Twelve of the Great Hymns of Wales*. Mae'r llyfr, a gyhoeddir gan Wasg Prifysgol Cymru, yn trafod deuddeg o'n hemynau mwyaf poblogaidd, o'r 18fed i'r 20fed ganrif, gan fanylu ar gerddi'r werin – gofaint, amaethwyr a phregethwyr. Dechrau'r daith yw geiriau cyfarwydd 'Dyma gariad fel y moroedd', ac wedi hynny cawn ein tywys trwy emynau grymus rhai o'n mawrion, megis Ann Griffiths a Williams Pantycelyn. Dyma gyfle i ddysgu mwy am rai o'r emynau sydd wrth wraidd ein cenedl fodern ac yng nghalonnau cymaint ohonom. Dyddiad: Nos Lun, 22 Ebrill, 7:30yh. Pris: Am ddim.

**Cerdded a Chlonc**
Bydd cynllun 'Cerdded a Chlonc' yn ail-ddechrau ym mis Ebrill gyda chyfarfodydd misol drwy gydol yr haf. Eleni, bydd y diwrnod a'r amser yn amrywio o fis i fis a chewch hyd i'r manylion llawn ar ein gwefan. Mae croeso i siaradwyr Cymraeg o bob lefel ymuno â ni i sgwrsio a chrwydro'n hamddenol. Parc Bute fydd ein lleoliad cyntaf – prynhawn Llun, 15 Ebrill rhwng 2:00 a 3:30yp. Pris: Am ddim.

**Pilates**
Ydych chi'n chwilio am ffordd o gryfhau'r cyhyrau ac ystwytho'r corff? Bydd tymor newydd o sesiynau Pilates yn dechrau nos Fawrth, 9 Ebrill rhwng 6:00 a 7:00yh yn Festri Salem, Treganna. Mae croeso i aelodau newydd! Pris: £55 am 10 sesiwn.

**Y Gerddorfa Ukulele**
Beth am ymuno â Mei Gwynedd a'r Gerddorfa Ukulele bob nos Fercher yn Chapter? Bydd tymor newydd yn dechrau nos Fercher, 24 Ebrill (7:00-9:00yh) ac mae'r sesiynau'n addas i chwaraewyr o bob lefel gan gynnwys dechreuwyr. Pris: £80 am 10 sesiwn.

**Mewn Tiwn**
Y pianydd a'r arweinydd côr Ben Pinnow fydd yn ymuno â ni yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbeina fore Llun, 29 Ebrill ar gyfer ein cyngerdd gymunedol ddiweddaraf. Bydd y gerddoriaeth yn dechrau am 11:30 ond mae croeso i chi ddod ychydig yn gynt i fwynhau paned a sgwrs o flaen llaw. Pris: Am ddim.

**Gŵyl Fach y Fro – datgelu'r bandiau!**
Bydd llu o gerddorion a bandiau gwych yn perfformio yng Ngŵyl Fach y Fro wrth i'r ŵyl ddychwelyd i Ynys y Barri ar ddydd Sadwrn, 18 Mai. Cadwch y dyddiad a dewch draw i glywed Fleur de Lys, Gwcci, Mattoidz, Lowri Evans, Sage Todz, Wigam, Brigyn, Bethan Nia a mwy!

Am fwy o wybodaeth am ein gweithgareddau ar gyfer oedolion, ewch i: https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

**Gweithgareddau i blant a theuluoedd**
Bydd sesiynau Amser Stori a'r gweithgareddau i blant yn ail-ddechrau ar ôl gwyliau'r Pasg gyda'r manylion llawn i'w gweld ar ein gwefan. Yn ystod tymor yr haf byddwn yn cynnal teithiau natur i blant oed cynradd mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru gyda'r dyddiadau i'w cyhoeddi'n fuan!
Am fwy o wybodaeth am ein gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifainc, ewch i: https://mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

**Gwefan: mentercaerdydd.cymru**
**Facebook: @m.caerdydd**
**Instagram: @mentercaerdydd**
**E-bost: post@mentercaerdydd.cymru**
**Ffôn: 029 2068 9888**






# Ysgol Creigiau

**Academi Traeth Cymru**
Fel rhan o'u hymchwiliad y tymor hwn, aeth disgyblion Dosbarth 1 a Class 1 ar daith i 'Academi Traeth Cymru' yn Rest Bay, Porthcawl. Roedd pawb wedi mwynhau cymryd rhan mewn gweithdy 'Archwilio Pyllau ar Lan y Môr'. Roedd gan bob un wên ar eu hwynebau blinedig pan ddychwelon nhw i'r ysgol yn y prynhawn!


Mwynhau Archwilio Pyllau ar Lan y Môr

**Eisteddfod yr Ysgol**
Dathlon ni Ddydd Gŵyl Dewi ar Fawrth y 1af drwy gynnal ein Heisteddfod yn neuadd yr ysgol. Mwynheuon ni wrando ar ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn canu yn Gymraeg. Gwobrwywyd disgyblion o bob dosbarth gyda thystysgrifau a sticeri am eu gwaith llythrennedd a chelf. Roedd disgyblion o'r pedwar llys wedi cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn amrywiol gystadlaethau offerynnol. Daeth yr Eisteddfod i ben gyda phob disgybl CA2 yn cystadlu yng nghystadleuaeth y côr. Roedd hi'n ddiweddglo arbennig i Eisteddfod gofiadwy. Ar ôl brwydr agos Gwrgant oedd yn fuddugol. Diolch i'r disgyblion i gyd am eu hagwedd brwdfrydig ac am ddangos eu cefnogaeth i aelodau o'u llys ac aelodau o'r llysoedd eraill. Gwych iawn yn wir! Rydyn ni'n hynod falch ohonoch chi i gyd!


Perfformio yn Eisteddfod yr Ysgol

**Eisteddfod Gylch a Sir yyr Urdd**
Ddydd Sadwrn, 2il o Fawrth, bu 55 o'n disgyblion yn cystadlu'n frwd yn yr Eisteddfod Gylch yn Ysgol Plasmawr. Cystadlon nhw mewn cystadlaethau canu a llefaru, iaith gyntaf ac ail-iaith. Cawsom ddiwrnod hynod o lwyddiannus. Cawsom chwech cyntaf - Tina (Class 2), Griff (Dosbarth 2), Lewis (Dosbarth 3),Yaya (Class 3), Fflur (Dosbarth 4) a Monika (Class 5): chwech ail - Imogen (Class 2), Gruff (Dosbarth 2), Gwen (Dosbarth 4), Ffion (Class 4), Gracie (Class 5) a Grŵp Llefaru Iaith Gyntaf; a thri trydydd - Poppy (Class 2), Beti (Dosbarth 3) a Chyflwyniad Dramatig Iaith Gyntaf.


Cystadleuwyr Eisteddfod Cylch a Sir yr Urdd

Yr wythnos ganlynol, ddydd Sadwrn, 9fed o Fawrth, bu 29 disgybl a ddaeth yn gyntaf neu'n ail yn yr Eisteddfod Cylch yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir a gynhaliwyd yn Ysgol Glantaf. Roedd pob un o'n disgyblion wedi perfformio'n wych a chawsom ddiwrnod arall llwyddiannus dros ben.
1af i Tina, Class 2, Llefaru Bl 2 ac iau i ddysgwyr. 2il i Imogen, Class 2, Llefaru Bl 2 ac iau i ddysgwyr. 1af i Yaya, Class 3, Llefaru Bl 3 a 4 i ddysgwyr. 2il i Ffion, Class 4, Llefaru Bl 3 a 4 i ddysgwyr. 1af i Gracie, Class 5, Llefaru Bl 5 a 6 i ddysgwyr. 2il i Monika, Class 5, Llefaru Bl 5 a 6 i ddysgwyr. 1af i'r Parti Llefaru i ddysgwyr. 1af ac 2ail i'r Cyflwyniad Dramatig i ddysgwyr. 3ydd i Fflur, Dosbarth 4, Llefaru Bl 3 a 4.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu. Bydd pob cystadleuaeth gafodd 1af yn cynrychioli'r ysgol a Chaerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhelir ym Meifod, Maldwyn yn ystod hanner tymor y Sulgwyn.

**Eisteddfod Ddawns yr Urdd**
Llongyfarchiadau i'r sgwad Dawnsio Disgo a gystadlodd yn Eisteddfod Ddawns yr Urdd yn Ysgol Fitzalan yn ddiweddar. Roedd safon y dawnsio yn uchel a pherfformiodd y merched yn ardderchog. Da iawn ferched - gwych! Diolch o galon i Mrs Tewkesbury, Mrs Long a Miss Jones am eu hyfforddi.


Dawnswyr Disgo o Fri!

**Castell Ffŵl-y-Mwn**
Roedd disgyblion Dosbarth 3 a Class 3 wrth eu boddau ar eu hymweliad â Chastell Ffŵl-Y-Mwn. Fe gymeron nhw ran mewn amrywiaeth o weithgareddau diddorol drwy gydol y dydd. Uchafbwynt eu taith oedd yr ymweliad â Pharc y Deinosoriaid. Roedd pawb wedi cael amser gwych!


Dosbarth 3 wrth eu boddau yng Nghastell Ffwl-Y-Mwn

**Diwrnod y Llyfr**
Ddydd Iau, 7fed Mawrth, dathlon ni 'Ddiwrnod y Llyfr' yn yr ysgol. Gwisgodd y disgyblion (a nifer o athrawon!) i fyny fel cymeriad o'u hoff lyfr neu mewn dillad cyfforddus a derbyniodd pob plentyn docyn llyfr gwerth £1. Cawsom ddiwrnod i'r brenin!

**Gweithdy Ymgysylltu Persimmon**
Ymwelodd dau bensaer â'r ysgol i weithio gydag aelodau'r Cyngor Ysgol ac enillwyr y gystadleuaeth Celf yn Eisteddfod yr Ysgol o Flwyddyn 5 a 6. Comisiynwyd y penseiri i ddylunio dau faes chwarae i blant a gynlluniwyd gan artistiaid ar gyfer Stâd Tai Persimmon ar Heol Llantrisant. Cafodd y disgyblion gyfle i greu lle chwarae o banel o glai. Thema un o'r meysydd chwarae oedd 'darlun glaw'. Dyluniodd y disgyblion faes chwarae a fyddai'n hwyl chwarae ynddo yn y glaw. Thema'r ail le chwarae oedd daearlun, wedi'i ysbrydoli gan hanes lleol chwarela. Yn ystod y bore, croesawon ni Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, Kevin Brennan, AS, a Chynghorwyr Dinas Caerdydd, Sarah Merry a Dan De'Ath i'r ysgol. Buont yn siarad â'r disgyblion a chreuon nhw eu lle chwarae eu hunain allan o glai! Roedd y disgyblion wedi mwynhau'r profiad yn fawr.


Cyd-greu gyda'n Hymwelwyr Pwysig

Parhad tudalen 17 >

# Ysgol Creigiau (Parhad)

**Gweithdai Cerddoriaeth**
Aeth disgyblion Dosbarth 5 a Class 5 i ymweld â Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i gymryd rhan mewn Gweithdai Cerddoriaeth a gyflwynwyd gan fyfyrwyr a staff y Coleg yn Neuadd Gyngerdd Dora Stoutzker. Mwynheuodd y disgyblion y profiad yn fawr.


Mwynhau Creu Cerddoriaeth

**Sesiynau Criced**
Brynhawniau Gwener, bu tri aelod o Glwb Criced Creigiau yn ymweld â'r ysgol i gyflwyno sesiynau criced i ddisgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6. Roedd pawb wrth eu boddau yn y sesiynau.

**Wythnos o Weithgareddau Noddedig**
Cyn gwyliau'r Pasg bu pob dosbarth yn gwneud gwahanol weithgareddau noddedig i godi arian ar gyfer eu helusen ddewisol. Bu'r Dosbarth Derbyn yn cerdded 50 milltir rhyngddynt – am gamp! Llongyfarchiadau mawr iddynt am eu dyfalbarhad wrth godi arian ar gyfer noddi asyn a chefnogi Fferm Amelia. Rhedodd disgyblion Dosbarth 6 bellter o 10,000 metr mewn 45 munud a 43 eiliad! Maen nhw wedi codi arian ar gyfer eu helusen ddewisol - Sefyll Dros Natur Cymru. Mae'r holl weithgareddau noddedig amrywiol wedi annog ein disgyblion i ddatblygu fel dysgwyr egwyddorol, gwybodus o Gymru a'r byd.

**Diwrnod Trwyn Coch**
Roedd pawb yn edrych yn wych yn eu gwisgoedd doniol ar Ddiwrnod Trwyn Coch. Cawsom wasanaeth ysgol gyfan ar Teams i ddathlu enillwyr y wisg fwyaf doniol a'r jôc orau o bob dosbarth - am hwyl a sbri! Diolch i'n teuluoedd am eu haelioni - casglon ni £508.57! Buon ni hefyd yn cynnal diwrnod 'Mae Gennym Hawliau' ar yr un diwrnod gyda'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn seiliedig ar Hawliau Plant. Roedd pawb wedi mwynhau'r gweithgareddau amrywiol yn fawr.


Y Feithrinfa yn mwynhau Diwrnod Trwyn Coch!


Blwyddyn 5 wedi cyflawni eu Gweithgaredd Noddedig


Dosbarth 6 wedi iddynt gwblhau eu Her Noddedig


Dosbarth 2 ar Ddiwrnod y LLyfr


Dosbarth 3 ar Ddiwrnod y Llyfr


Dosbarth 2 ar Ddiwrnod Trwyn Coch!


Dosbarth 4 yn mwynhau Diwrnod Trwyn Coch!


Dosbarth Derbyn yn eu gwisgoedd doniol

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar Nos Lun Mawrth 11 2024 cawsom gyflwyniad diddorol iawn ar yrfa yr Athro K. Alan Shore mewn Ffiseg golau dan y testun 'Goleuo'r Ffordd: Gyrfa Anhrefnus mewn Physgoton'. Ganwyd Alan yn Nhredegar Newydd yng Nghwm Rhymni lle aeth i Ysgol Lewis Pengam cyn gwneud gradd mewn Mathemateg yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen. Yna gwnaeth Ddoethuriaeth mewn laserau lled-ddargludol (semiconducting lasers) ym Mhrifysgol Nghaerdydd cyn cael swyddi darlithio ym Mhrifysgol Lerpwl a Chaerfaddon.

Yna penodwyd Alan i gadair ym Mhrifysgol Bangor 1995 gyda Alwyn Owens yn bennaeth ar yr Adran Beirianneg Electronig. Yno sefydlodd Fforwm Opto-elecTrONig Cymru (FFOTON), y sefydliad Technium OpTIC yn Llanelwy ac Academi Ffotoneg Cymru neu yn Saesneg Photonics Academy of Wales @Bangor (PAWB). Fel y gwelwch mae Alan yn hoff iawn o greu acronymau Cymreig i'r prosiectau mae e'n gweithio arnynt!

Roedd cyfarwyddwr yr academi Ffotoneg, Ray Davies yn cynnal ysgolion Haf i fyfyrwyr chweched dosbarth oedd yn ysbrydoliaeth i nifer o wyddonwyr heddiw. Denodd Alan gynhadledd fyd-eang ETOP (Education and Training in Optics and Photonics) i Lanelwy ym 2009, a bu'n gysylltiedig â nifer o ddigwyddiadau dros Gymru ym mlwyddyn rhyngwladol golau yn 2015. Yn 2017 yn Eisteddfod Ynys Môn pwysodd Alan i gael rhan o seremoni y fedal wyddoniaeth, a ddyfarnwyd i Deri Tomos, ar brif lwyfan yr Eisteddfod am y tro cyntaf.

Mae Alan wedi bod yn gysylltiedig a Chymdeithas Ddysgedig Cymru ers ei sefydlu yn 2010, gan sicrhau darlith wyddonol bob yn ail flwyddyn adeg yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae'r Gymdeithas wedi creu Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar i alluogi gwyddonwyr ifanc i wneud cysylltiadau hanfodol i'w dyfodol. Arweiniodd hyn at sefydlu academi debyg i'r DU gyda Alan ar eu pwyllgor. Mae profiad Alan o weithio yn Japan wedi arwain at fod yn rheolwr Cymru ar Gymdeithas hybu Gwyddoniaeth Japan. Gorffennodd Alan drwy sôn am ei falchder o gwrdd â sefydlydd Amgueddfa Pwll Glo Elliot yn Nhredegar Newydd trwy'r Gymdeithas Ddysgedig. Dyma'r pwll glo lle gweithiodd tad-cu Alan gan ddod a ni nôl at ddechrau y sgwrs a'i wreiddiau yng Nghwm Rhymni.

Rhys Morris

# Ysgol Garth Olwg

**Siarad cyhoeddus blwyddyn 9 – Rhwydwaith Seren**
Llongyfarchiadau enfawr i dîm siarad cyhoeddus Cymraeg Blwyddyn 9 ar ennill cystadleuaeth drafod genedlaethol Rhwydwaith Seren yn Rhydychen!



Ar ddydd Iau 14eg o Fawrth, teithiodd dîm siarad cyhoeddus Cymraeg Blwyddyn 9 Garth Olwg i Rydychen i gystadlu yn rownd derfynol rhwydwaith Seren. Mae'n rhaid canmol Gethin, Ellis, Elliott a Gruff am eu gwaith caled, eu hymroddiad a'u hymdrech dros yr wythnosau diwethaf ac arweiniodd at berfformiadau o safon uchel iawn. Yn ystod y diwrnodau yn Rhydychen, cafodd y disgyblion y cyfle i ddadlau yn erbyn Ysgol Bro Teifi, Ysgol Ystalyfera Bro Dur yn y rownd gynderfynol ac Ysgol Henry Richard yn y rownd derfynol. Diolch yn fawr i'r ysgolion am ddadleuon arbennig o dda a llongyfarchiadau enfawr i'r bechgyn am ddod yn fuddugol. Roedd y beirniaid i gyd a'r staff yn canmol y disgyblion am eu haeddfedrwydd a'u cymhelliant wrth ddadlau. Diolch yn fawr i Rwydwaith Seren am redeg y gystadleuaeth a rhoi'r cyfle anhygoel i'r disgyblion i gystadlu a rhoi'r cyfle iddyn nhw dderbyn mewnweledied i fywyd myfyrwyr y coleg wrth dderbyn y cyfle i fynd ar daith o gwmpas y campws.

**Diwrnod y llyfr**
Dathlodd ddisgyblion Garth Olwg diwrnod y llyfr yn ddiweddar trwy gymryd rhan mewn cwis, cystadleuaeth darllen, 'Masked Reader' a gwisgo i fyny fel eu hoff gymeriadau. Cafodd bawb hwyl a sbri a chyfle arbennig i drafod a dathlu darllen. Cafodd disgyblion yr ysgol isaf llawer o hwyl yn eu gwisgoedd ac yn cyfnewid llyfrau ag aelodau eraill o'u dosbarth.







**Wythnos y stori**
Mae disgyblion blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn dathlu wythnos y stori trwy amrywiaeth o weithgareddau. Bu'r disgyblion yn ysgrifennu straeon creadigol i ddathlu'r wythnos. Da iawn chi!



**Cystadleuaeth 'Royal Mint'**
Yn ddiweddar, mae disgyblion blwyddyn 5 a 6 wedi bod yn gweithio'n galed iawn i ysgrifennu stori fer am antur ar y môr ar gyfer cystadleuaeth 'Royal Mint'– ymdrech arbennig gan bawb.

**Gwobr National Nurturing Schools**
Mae'r ysgol yn falch iawn i gyhoeddi ein bod ni wedi ennill gwobr National Nurturing Schools Award. Diolch i bawb a gyfrannodd at ennill y wobr. Gweler yr adroddiad llawn ar y wefan ysgol https://sites.google.com/hwbcymru.net/ady-garth-olwg/cartrefhome/cyhoeddiadauannouncements



**Eisteddfod Yr Urdd**
Bu'r disgyblion yn brysur yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn ystod yr wythnosau diwethaf gyda nifer o lwyddiannau:



**Eisteddfod Gylch – Ysgol Isaf a Chanol**
Llefaru blwyddyn 2 ac iau - Gwen Gravell yn 1af
Llefaru blwyddyn 3 a 4 - Efa Norris yn 2il
Unawd blwyddyn 3 a 4 - Efa Norris yn 2il
Unawd blwyddyn 5 a 6 - Anni Gwyn yn 1af
Llefaru blwyddyn 5 a 6 - Anni Gwyn yn 1af
Alaw werin - Lillian Facey yn 2il
Deuawd - Lillian a Cadi yn 1af, Efa ac Eva yn 2il
Parti unsain - 2il
Parti deulais - 1af
Côr - 1af
Cogurdd - Alfred yn cyrraedd yr Eisteddfod Genedlaethol

**Eisteddfod Sir – Ysgol Isaf a Chanol**



Llefaru blwyddyn 2 ac iau - Gwen Gravell yn 2il. Unawd blwyddyn 5 a 6 - Anni Gwyn yn 2il.
Llefaru blwyddyn 5 a 6 - Anni Gwyn yn 1af
Deuawd - Lillian a Cadi yn 1af
Parti deulais - 3ydd. Côr - 2il

**Llwyddiant Eisteddfod yr Urdd – Ysgol Ganol, Uchaf a Hŷn**
Cafwyd nifer o lwyddiant wrth gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni i ddisgyblion yr ysgol Ganol, Uchaf a Hŷn. Dyma'r disgyblion bydd yn cynrychioli'r ysgol ym Mis Mai yn Maldwyn.

Alaw Werin BL7,8,9 - Beca George - 3ydd
Deuawd BL 7-9 - Beca George a Mari Butcher - 1af
Unawd Merched BL10-13 - Sara Rees-Roberts - 1af
Deuawd BL10-13 - Sara Rees-Roberts a Miley Goss - 1af
Unawd Sioe Gerdd BL10-13 - Sara Rees-Roberts 1af, Cadi Deszoua 2ail
Parti Bechgyn BL7,8,9 - 2ail
Unawd Pres BL10 ac o dan 19 oed – Twm Pike 1af
Unawd Piano BL10 ac o dan 19 oed – Morgan Davies 1af, Twm Pike 2ail

**Wythnos e-ddiogelwch**
Er mwyn codi ymwybyddiaeth ar gyfer wythnos e-ddiogelwch, cymerodd disgyblion rhan mewn gweithgareddau hwyliog er mwyn deall sut i gadw'n ddiogel ar-lein. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn deall peryglon y we ac wedi mwynhau dysgu.

Parhad tudalen 19 >

## Ysgol Garth Olwg (Parhad)




Wythnos e-ddiogelwch

**'Turning the Wheel'**
Roedd yr Adran Dyniaethau a Chelfyddydau wedi cydweithio er mwyn mynd i weld sioe gerdd newydd 'Turning the Wheel'. Cafodd y sioe ei ysgrifennu am Kieran Bailey a'i gyfarwyddo gan Llinos Daniel. Mae'r stori wedi ei osod yn ystod cyfnod pan oedd glo yn cael ei ystyried yn aur du, ond doedd bywydau'r glowyr ddim yn denu'r un gwerth, mae gwreiddiau'r stori ysbrydoledig yma'n amsugno'r ymdeimlad o ysbryd cymunedol a'r cyfeillgarwch a wnaeth ysbrydoli Cymry'r dosbarth gweithiol i sefyll ar eu traed eu hunain a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Roedd y cast a'r perfformwyr gwir wedi perfformio yn wych ac yn ysbrydoliaeth i'r disgyblion. Disgyblion Blwyddyn 7,8 a 9 oedd wedi dod ar y trip a phawb wedi mwynhau yn fawr.

Diolch i Miss Vye am drefnu trip gwych.



**Dydd Gŵyl Dewi**



Roedd yr Ysgol yn fôr o goch ar gyfer dathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni efo nifer o weithgareddau wedi ei threfnu i'w ddathlu. Roedd Fforwm Cymreictod yr ysgol wedi bod yn brysur yn ystod yr wythnos wrth wneud gwasanaethau yn adrodd hanes Dewi Sant ac yn amlygu'r rhesymau dros ddathlu'r ŵyl. Cafwyd llawer o ganu i ddechrau'r dydd ar iard yr Ysgol Isaf gan gôr a pharti Bechgyn yr ysgol.

Yn ogystal, aeth Senedd yr ysgol a'r Fforymau ati i drefnu digwyddiadau gwahanol ar gyfer y dydd gan gynnwys pobi Pice ar y Maen gyda Miss Richards a Miss Hughes a'u gwerthu amser cinio. Roedd hyn yn llwyddiant mawr. Da iawn chi!



Diolch i Catrin England am drefnu twmpath i flwyddyn 7 ac i Greta Hall Williams am greu cwis amser cofrestru i hybu Cymreictod.

Cafodd Blwyddyn 5 a 6 disco i orffen y dydd, ac roedd pawb yn cystadlu i weld pwy oedd y dawnswyr gorau! Diolch i aelodau o flwyddyn 13 am helpu gyda hyn!

Diwrnod llawn hwyl i ddathlu ein Cymreictod!

**Fforwm Cydraddoldeb – Mis Hanes LHDT**
Ar gyfer dathlu Mis Hanes LHDT eleni, gweithiodd y fforwm Cydraddoldeb yn galed iawn i godi ymwybyddiaeth. Mae'n bwysig iawn bod yr Ysgol Gyfan yn deall ac yn derbyn hanes y mis ac felly cynhaliwyd gwasanaeth gan benaethiaid Ysgolion ar y mater. Yn ogystal, gwerthwyd cynnyrch yr Enfys a losin gan y fforwm i gofi arian i'r Elusen Stonewall. Roedd aelodau'r Fforwm wedi gweithio'n andros o galed i greu bathodynnau a bagiau losin ac, o ganlyniad, wedi llwyddo i godi £200.



**Diwrnod Rhyngwladol y Merched**
Er mwyn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched, aeth y fforwm ati i gynnal gwasanaethau Ysgol Isaf, Ganol, Uchaf a Hŷn. Hoffwn ddiolch i Grace Rogerson am drefnu ac am fod mor frwdfrydig wrth gyflwyno. Mae'n hanfodol bod disgyblion yn ymwybodol o hanes menywod pwysig mewn gwahanol feysydd felly aeth y fforwm o gwmpas yr ysgol gyda thaflenni gwybodaeth o fenywod ysbrydoledig a'u rhoi ar y waliau. I gyd fynd â'r thema ryngwladol eleni, 'Inspire Inclusion', daeth Cymuned Ysgol Garth Olwg at ei gilydd i greu 'collage' o Staff a Disgyblion yr ysgol i ddangos ein cefnogaeth am y dydd.



**Prifysgol Met Caerdydd – Merched mewn chwaraeon**
Ar y 19eg o Fawrth, aeth criw o 30 o ferched blwyddyn 10 am ddiwrnod i gampws Metropolitan Caerdydd i gael diwrnod oedd yn canolbwyntio ar ferched mewn chwaraeon. Fel rhan o'r diwrnod, cafodd y disgyblion y profiad o fywyd prifysgol gan fynychu darlithoedd ysbrydoledig am gyfleoedd i ferched yn y byd chwaraeon. Roedd y profiad yn hynod o fuddiol i'r disgyblion ac, yn bendant, wedi cynyddu'u hyder.



**Pêl-fasged**
Ar y 13eg o Fawrth, aeth criw o fechgyn blwyddyn 8 i gampws Metropolitan Caerdydd i fynychu diwrnod o bêl fasged a gynhelir gan y NBA. Roedd y bechgyn i gyd wedi cael chwarae a chael y cyfle i ymarfer. Yn ogystal, derbynodd pob disgybl crys chwarae NBA y Chicago Bulls am fod yn rhan o'r diwrnod.

**Llwyddiant y trawsgwlad**




Aeth pedwar disgybl draw i gynrychioli Garth Olwg a Chymoedd Morgannwg ym mhencampwriaeth Traws Gwlad ysgolion Cymru. Da iawn i bawb am redeg yn wych a serennu yn y gystadleuaeth.
Llongyfarchiadau i Isla ym mlwyddyn 7 am gael 5ed yn ei ras ac felly'n 5ed drwy ysgolion Cymru.

# Ysgol Llanhari

**Teithiau'r Adran Gynradd**

Mae disgyblion hŷn yr adran gynradd wedi bod yn brysur yn mynd ar deithiau fel uchafbwynt eu themâu. Dilynodd ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 daith yr afon Ogwr gyda chymorth Miss Lougher o'r adran uwchradd. Er gwaethaf y tywydd roedd y disgyblion wedi mwynhau eu gwaith maes a stopio mewn sawl man gwahanol i gofnodi eu canfyddiadau. Aeth disgyblion blwyddyn 4 i Fannau Brycheiniog. Cafwyd cyfle i ddefnyddio cwmpawd, gwneud llwyth o waith mapio ac hyd yn oed mynd am dro i ddysgu sut i ddefnyddio'r GPS. I Barc Bryngarw aeth disgyblion blwyddyn 3 i wneud helfa natur a mwynhau'r tywydd braf. Ar gwch ym mae Caerdydd aeth disgyblion o flwyddyn 2 ac hefyd cawsant gyfle i ymweld â'r Senedd.











**Cystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd**

Llongyfarchiadau i dîm bêl-rwyd merched yr adran gynradd am gystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd. Braf oedd gweld y merched yn wên o glust wrth gystadlu yn erbyn ysgolion y sir ac yn llwyddo i ennill sawl gêm. Da iawn chi ferched.



**Gorymdaith Hetiau Pasg**

Braf oedd cael gwahodd rhieni a ffrindiau i'r ysgol unwaith eto er mwyn cynnal yr Orymdaith Hetiau Pasg. Roedd y neuadd dan ei sang â phobl yn cefnogi'r disgyblion. Diolch i bawb am eu cefnogaeth wrth greu'r hetiau a mynychu'r diwrnod.





**Dydd Gŵyl Dewi**

Mae dechrau Mawrth yn adeg brysur. Braf oedd gweld cymaint o blant yn eu gwisgoedd traddodiadol ac yn gwisgo coch. Smart iawn.



**Diwrnod y Llyfr**

Roedd Diwrnod y Llyfr yn gyfle i ni fwynhau amrywiaeth o weithgareddau a gemau darllen. Daeth y plant a'r staff i'r ysgol wedi gwisgo'n wahanol, llawer fel eu hoff gymeriadau o lyfrau ac eraill fel ansoddair. Roedd pawb yn edrych yn wych a diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth unwaith eto.



**Siop Sul y Mamau**

Diolch i Ffrindiau Llanhari am gynnal Siop Sul y Mamau eto eleni. Gobeithio fod pawb yn hapus gyda dewisiadau'r plant.



# PENTRE'R EGLWYS

Os ydych yn byw yn CF38 dewch ac eitem sydd angen ei drwsio i'r Caffi Trwsio cyntaf yn yr ardal ar Ddydd Sadwrn 27fed o Ebrill yng Nghanolfan Gydol Oes Garth Olwg.

Gall y gymuned leol gael eu heitemau cartref sydd wedi torri gael eu trwsio am ddim gan wirfoddolwyr. Eitemau yn cynnwys beiciau, trydan cartref, dillad a tegannau plant.

Os oes gennych sgil i rannu beth am wirfoddoli yn y sessiwn? Am mwy o wybodaeth am fynychu neu wirfoddoli allwch ebostio -
repaircafecf38@gmail.com

O 27fed o Ebrill

CAFFI TRWSIO CYMRU CF38

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

**Elinor Wyn Reynolds**

Fel rhan o gywaith ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gyfer Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024 mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi bod wrthi yn creu cerddi sy'n llawn dychymyg. Diolch i Elinor Wyn Reynolds am ysgogi'r plant i fwynhau ac ysgrifennu barddoniaeth.



Bl6 yn mwynhau Gweithdy Barddoniaeth efo Elinor Wyn Reynolds

**Côr yr Ysgol**

Bu côr yr ysgol yn cymeryd rhan mewn cyngerdd yn Eglwys Dewi Sant Tonyrefail yn ddiweddar i godi arian tuag at Eisteddfod 2024. Diolch yn fawr i Bethan Davis am hyfforddi ac arwain y côr ac i Jonathan Griffiths am gyfeilio.



Cor yr Ysgol yn perfformio yn Eglwys Dewi Sant

**Pencampwraig Cwpan y Byd Dawns**

Llongyfarchiadau anferthol i Verity Walters ar ei llwyddiant ym myd y ddawns. Roedd yn Bencampwr gyda tîm "Six" ac yn is bencampwr gyda tîm "Fame" yng nghystadleuaeth Cwpan y Byd.

**Bardd Plant Cymru**

Diolch yn fawr i Nia Morais, Bardd Plant Cymru am ddod i gynnal gweithdai barddoniaeth gyda disgyblion Blwyddyn 5 a 6. Bu'r plant wrthi'n brysur yn creu barddoniaeth am ddreigiau a phob math o bethau rhyfedd!



Gweithdy Barddoniaeth i fl5 gyda Nia Morais Bardd Plant Cymru

**Sul y Fam**

Braf oedd gwahodd mamau, neiniau a pherthnasau eraill plant y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn i'r ysgol i ddathlu Sul y Fam. Roedd nifer o weithgareddau amrywiol, o dan oruchwiliaeth plant Blwyddyn 6, wedi eu paratoi. Diolch i bawb am gefnogi a chyfrannu at llwyddiant yr achlysur.



Dathliadau Sul y Fam y Dosbarth Meithrin

**Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchiadau i'r plant ar eu llwyddiant yn eisteddfod yr Urdd Cylch Llanhari yn ddiweddar ac i Eira Phillips am ddod yn drydydd yn yr unawd Bl 3 a 4 yn yr Eisteddfod Sir.



Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Cylch Llanhari

**Diwrnod y Llyfr**

Cafwyd diwrnod prysur yn dathlu darllen, llyfrau ac awduron o Gymru yn ystod 'Diwrnod y Llyfr'. Roedd y plant wedi bod yn greadigol iawn yn creu cymeriadau o lyfrau allan o datws! Cafodd y plant gyfle hefyd i gyfnewid llyfrau, diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu. Bu Blwyddyn 6 yn brysur yn darllen storiau i ddisgyblion Cam Cynnydd 1 a 2.



**Dathlu Dydd Gŵyl Dewi**

Cynhaliwyd eisteddfod yr ysgol i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda eitemau gan pob dosbarth ac fe wobrwywyd y disgyblion am eu gwaith celf ac ysgrifennu. Llongyfarchiadau arbennig i Eladie-Belle Owen am ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth cadair yr eisteddfod ac i Harri Fletcher am ddod yn ail, ac Alyssa Brown am ddod yn drydydd. Llongyfarchiadau hefyd i Tylcha am ennill y mwyaf o bwyntiau rhwng y llysoedd.



Dosbarth Derbyn yn Mwynhau'r Disgo Gŵyl Dewi




Enillydd Cadair yr Eisteddfod - Eladie-Belle Owen

**Disgo Gŵyl Dewi**

Diolch i Ffrindiau yr ysgol am drefnu dau ddisgo i ddathlu dydd Gŵyl Dewi. Roedd y plant wedi mwynhau gwrando ar a dawnsio i gerddoriaeth Gymraeg




Tylcha - Llys Buddugol yr Eisteddfod




Cymeriadau o datws Diwrnod y Llyfr Bl3 a 4



Blwyddyn 1 yn dathlu diwrnod y llyfr

# Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

**Diwrnod Trwynau Coch**
Gwisgodd y plant dillad eu hunain a chael gwasanaeth arbennig r gyfer Diwrnod Trwynau Coch.

Mwynheuodd y plant Sesiwn Ffitrwydd Diwrnod Trwynnau Coch gyda Chwaraeon RhCT.








**Band yn y Stand**
Bu criw o ddisgyblion Castellau yn canu yn 'Band yn y Stand' ym Mharc Ynysangharad ym Mhontypridd. Hyfryd oedd gweld y ganolfan newydd yn y parc a mwynhau canu bendigedig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Diolch Menter Iaith RhCT am drefnu.



**Eisteddfod Gylch**
Da iawn i bawb a gystadlodd yn yr Eisteddfod Gylch ar y 5ed o Fawrth yn Ysgol Y Pant. Roedd y plant wrth eu boddau yn perfformio a chefnogi ei gilydd.












**Eisteddfod Sir yr Urdd**
Llongyfarchiadau mawr i'r plant oedd yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Sir a phob lwc iddynt ym Meifod! 1af yn yr unawd Bl.2 ac iau, Unawd Bl. 3 a 4, Unawd Cerdd Dant a'r Ymgom.





**Technocamps**
Braf iawn oedd croesawu Technocamps i gwblhau gweithdai Lego a chodio gyda Bl. 4, 5 a 6. Diwrnod llawn hwyl oedd hon i'r dysgwyr gyda'r plant yn creu a rheoli robotiaid!









**Twrnament Rygbi Ysgolion Pontypridd**
Buodd dysgwyr Blynyddoedd 5 a 6 yn cystadlu yn nhwrnament rygbi ysgolion Pontypridd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i'r tîm am gynrychioli'r ysgol yn wych gan chwarae ag angerdd ac ymddwyn yn ardderchog yn ystod y dydd.



**Eisteddfod hwyl ein hysgol**
Llongyfarchiadau mawr i Gwennan, ein bardd buddugol eleni yn seremoni Gadeirio'r ysgol. Wedi diwrnod o gystadlu brwd, dangos doniau amrywiol a llawer o hwyl a sbri, Gelynnog oedd y llys oedd wedi cipio tlws yr ysgol eleni ar Fawrth y 1af!



Parhad tudalen 23 >

## Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau (Parhad)





**Cracio'r Pasg**
Diolch yn fawr i Mr Coleman a'i dîm am ddarparu gweithdy Cracio'r Pasg gyda disgyblion bl5 yn yr Eglwys Gymunedol 'CF38'. Dysgodd y plant llawer am stori'r Pasg ac mi wnaethon nhw rannu eu dysgu gyda gweddill yr ysgol yn y gwasanaeth ysgol.



**Ffarwelio**
Rydym yn ffarwelio gyda Tracey Richards sydd wedi bod gyda ni fel menyw ginio ers dros ddeng mlynedd. Pob hwyl iddi yn y dyfodol.



**Sioe Hetiau Meithrin a Derbyn**
Buodd plant lleiaf yr ysgol yn perfformio mewn Sioe Hetiau Pasg yn ystod wythnos olaf y tymor. Dysgon nhw llawer iawn o ganeuon i ddiddannu'r rhieni a theuluoedd. Braf oedd gweld yr holl hetiau lliwgar a chlywed eu canu swynol. Da iawn blant!



Y Sioe Hetiau

**'Playmakers' RhCT Chwaraeon**
Diolch @sportrct am ysbrydoli a hyfforddi disgyblion Blwyddyn 5 a'r Cyngor Iach a Hyderus i ddatblygu gemau eu hunain i chwarae ar yr iard.



**Diwrnod Syndrom Down y Byd**
Bu disgyblion Blwyddyn 5 yn dathlu Diwrnod Syndrom Down y Byd gan wisgo sanau od a chodi ymwybyddiaeth drwy greu posteri ar Jamboard.



**PC Jenkins**
Diolch i PC Jenkins a ddaeth i siarad gyda Bl 6 yn ddiweddar am ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw yn ddiogel.







**EISTEDDFOD Rhondda Cynon Taf**
3 – 10 Awst 2024
**Codi Hwyl, Codi Calon a Chodi Arian!**

5 Ebrill. Twrnament Golff, Clwb Golff Pontypridd.
12 Ebrill. Noson gyda Rhuanedd Richards (Cyfarwyddwr BBC Cymru) a Cennard Davies, Brodor o Dreorci, yn cael eu holi gan Cyril Jones, 7.30yh yn Hen Ysgoldy'r Eglwys, Radur.
13 Ebrill Ras Hwyaid, 10.30 Gilfach Goch.
13 Ebrill. Te Prynhawn, 2.30yp Neuadd Gymunedol Pontyclun.
13 Ebrill. Pizza a Cwis, 7yh yn y Carpenters Arms, Efail Isaf.
17 Ebrill. Cyngerdd gyda Chantorion Richard Williams a'r Gentlemen Songsters yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail.
18 Ebrill 'Perthyn i'r Dihyryn' gyda Dafydd Wigley, 19.00 Canolfan Soar, Merthyr.
20 Ebrill. Cymanfa Ganu Bedyddwyr Dwyrain Morgannwg. 17.00 Salem, Tonteg.
27 Ebrill. Cyngerdd Côrdydd 19.00 Eglwys St John, Yr Ais Caerdydd
1 Mai. Taith Gerdded Cwmaman
10 Mai. Sgwrs a Chân gyda Delwyn Siôn ym Mhenderyn.
11 Mai. Noson Owain Glyndŵr, 7.30yh Neuadd yr Eglwys, Creigiau.
18 Mai. Taith Gerdfed Llanfabon.
23 Mai. 'Cwm Rhondda Elwyn Thomas' gyda Siôn Thomas Owen. 18.00 Storyville Books, Pontypridd.
25 Mai. Bronwen Lewis. 19.30 Garth Olwg.
31 Mai. Cystadleuaeth Golff, Clwb Golff Pontypridd

**Disgo'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon**
Diolch o galon i'r GRhacA am drefnu disgo'r Pasg yn neuadd yr ysgol. Disgo arall arbennig yn codi arian ar gyfer yr ysgol.

**Ymweliad y Bwni Pasg**
Daeth ymwelydd annisgwyl i'r dosbarthiadau i orffen y tymor! Buodd y Bwni Pasg yn gwrando ar y plant yn canu ac yn cael hwyl ym mhob dosbarth! Diolch unwaith eto i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.



## Ysgol Dolau





Seremoni Coroni a Chadeirio Eisteddfod Dolau Mawrth 2024. Llongyfarchiadau i'r enillwyr!



Da iawn i'r ddau yma - ymdrech arbennig yn y llefaru yn yr Eisteddfod Sir eleni.

Isod - Staff Dolau yn ymuno yn nathliadau Diwnrod y Llyfr!









Côr newydd Ysgol Dolau yn perfformio yn yr Eisteddfod
ac yn noson Cawl a Chân yn Lanharan.











Llongyfarchiadau i'r tîm yma - Pencampwyr Rygbi deg bob-ochr Ysgolion Pontypridd!